

# CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 276 - 60c  
Medi 2009

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

## Cerdded 60 milltir dros Gancr



Tudalen 19

## Cadwyn arall o gyfrinachau



Tudalen 17

## Byd y sioeau lleol



Tudalen 22

## Llwyddiant yn y Bala



Elin Williams, Y Garn, Cwmann a enillodd Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn.



Guto Gwilym, Y Garn, Cwmann a gafodd 1af yn y Llefaru Unigol 16 – 19; 2il yn y Llefaru Unigol o'r Ysgrythur a 3ydd yn y Ddeialog Ddigi gyda Rhian Davies o Bencader.



Aron Davies, Gwarffynnon, Silian a gafodd 3ydd yn Unawd 12-16.

## Eisteddfod Rhys Thomas James



Bardd y Goron, Melfyn Thomas, Bangor gyda phlant y ddawns flodau - Plant Ysgol Llanllwni



Enillwyd y Ddeuawd dan 21oed gan Elin Jones, Maesycrugiau a Gwawr Hatcher, Gorsgoch



# Priodasau'r Haf



Priododd Gwyndaf a Marlene yn Paphos, Cyprus, ar 30ain Gorffennaf, yng nghwmni eu teulu a'u ffrindiau. Cafwyd bendith y Briodas yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan ar ddydd Sadwrn, 15fed Awst.



Nia Wyn, merch hynaf Gary a Sian Jones, Bryndolau, Cwmann a Osian Williams, mab ieuengaf, Alun a Beryl Williams, Silian a briodwyd yn Eglwys Sant Iago, Cwmann ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 18fed 2009. Hoffai'r ddau ohonynt ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu rhoddion caredig. Cawsant ddiwrnod bythgofiadwy.



John a Ffion Dalton, Gelligarneddau, Olmarch, Llangybi yn dilyn eu priodas ar y 1af o Awst yn Eglwys St Bledrws, Betws Bledrws. Dymuna'r ddau ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur eu priodas.



Ar y 27ain o Fehefin, a hithau yn ddiwrnod hyfryd o haf, priodwyd Rhys Davies, Troed y bryn, Ffarmers a Siân Thomas, Fronhaul, Carno yng Nghapel Creigfryn, Carno.



Caryl Hughes, Cwmhendryd a Ben Herrick, Aberystwyth yn dilyn eu priodas yn Aberystwyth ar ddydd Sadwrn, Awst 22ain.



Rhes flaen (chwith-dde) Rhian Thomas 2A 1B; Carys Thomas 3A; Luned Mair 4A; Elin Haf Jones 2A 1B; Rhes ganol - Owen Davies 2A 1B; Hedydd Davies 3A; Natalie Moore 3A; Ffiona Williams 2A 1B; Martin Theodorou 4A; Rhes ôl- Russel Pink 2A 1B; Aled Parry 3A; Trystan Lloyd 3A;

## Llwyddiant Lefel A a TGAU



Dde i'r chwith: Charlotte Evans 2A\*5A1B; Elen Thomas 4A\*7A; Elliw Mair 7A\*2A2B; Gemma Evans 3A\*3A3B1C; Angharad Evans 2A\*5A1B3C; Catrin Langford 4A\*5A2B; Daniel Murton 3A\*6A2B2C; Daniella Beaumont 2A\*7A2B; Llyr Davies 2A\*4A5B; Zola Kopasci 5A\*2A1B1C; Thomas Merrow Smith 3A\*5A2C; Ben Lake 11A\*; Craig Richards 3A\*2A4B2C.



# Pwy yw pwy?

## Golygydd:

Medi Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490  
Hydref Eifion ac Yvonne, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies,  
Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: bedwyr@btopenworld.com  
Teipyddion Nia Davies, Maesglas 480015  
Joy Lake, Llambled

## Gohebwyr Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359  
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922  
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies  
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507  
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238  
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856  
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407  
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325  
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218  
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamlwg 480453  
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257  
Pencarreg Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

# Beth yw beth?

## Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk  
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490  
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856  
Ffotograffwyr Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644  
Terry Jones, Awel y Grug, Cwmann 421173  
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: [www.clonc.co.uk](http://www.clonc.co.uk) os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: [golygydd@clonc.co.uk](mailto:golygydd@clonc.co.uk)
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i [ysgrifennydd@clonc.co.uk](mailto:ysgrifennydd@clonc.co.uk)
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd luniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i [cadeirydd@clonc.co.uk](mailto:cadeirydd@clonc.co.uk).
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £12 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

## Ail Ddechrau.

I ble ddiflanodd yr Haf? Mae'r amser yn hedfan ond mae gorfod ail ddechrau'r golofn yn gwneud i berson sylweddoli ei fod yn mynd yn hŷn. Mae dau fis i ffwrdd o'r cyfrifiadur yn gwneud i fi sylweddoli fod y meddwl yn dechrau rhydu, a bod yn rhaid ail ddechrau dysgu sut i ddefnyddio'r cyfrifiadur.

## Llongyfarch.

Fel arfer y mis yma, mae'r rhestr o longyfarchiadau yn hir. Mae canlyniadau'r arholiadau yn foddhaol iawn, ac rydym yn dymuno'n dda i bawb gan obeithio y bydd cyfle i'r mwyafrif ohonoch wireddu'ch breuddwydion. Yn y maes eisteddfodol, hyfryd oedd gweld wynebau cyfarwydd yn ymddangos ar y sgrin deledu, dim bob amser yn llwyddiannus – y beirniaid ddim yn deall eu gwaith efallai, ond yn llawer mwy pwysig oedd y cymeryd rhan. Do fe dreuliais i un diwrnod hyfryd yng nghwmni 'Lleisiau'r Werin' yn y Bala. Diwrnod da dros ben a'r cyfan yn fwynhad pur, ond fe welais fwy o lwyfan yr Eisteddfod ar y teledu wedi dod adre. Y gwahaniaeth mawr oedd na chefais i ddim cyfle i gael clonc wrth wyllo'r teledu!

## Gwyllo'r gorwel.

Ers wythnos bellach mae'r gorwel wrth edrych i gyfeiriad Llanllwni yn newid. Mae na un felin wynt wedi cael ei gosod ar y mynydd ac mae'r ysbieinddrych ar y bwrdd yn gyson i gael dilyn y datblygiadau. O'n tŷ ni dim ond maint pensil yw'r felin. Mae'n ddigon hawdd byw gydag un

mor fach!!

## 'Clonc yn arwain'

Da oedd deall fod Clonc wedi bod yn destun trafodaeth yn Eisteddfod Y Bala. Bu ein Cadeirydd yn annerch gweithwyr llw o bapurau bro yn neuadd y cymdeithasau. Dangoswyd cryn ddiddordeb yn sut yr oeddem ni yn cynhyrchu ein papur. Llwyddodd Dylan i ennyn diddordeb nifer ar sut mae'n papur ni yn gweld golau dydd ac yn plannu'r hedyn i bapurau eraill ddilyn yr un ffordd.

Rhaid gwerthfawrogi gwaith diffino ein Swyddogion yn ein cadw allan o ddyled. Mae aelodaeth Clwb Clonc wedi cynyddu eleni eto, a da yw deall fod y deid uniongyrchol wedi cynyddu hefyd. Da iawn.

## Gwybodaeth!

Ydi'r enw 'Blanc' neu 'Blong' yn dod ag atgofion i chi? Fel yna y swniai enw carcharor rhyfel Almaenig yn ardal Llanwenog, ond diau fod sillafiad ei enw yn hollol anghywir. Dyma'r hyn a wyddaf amdano. Roedd yn byw mewn adfeilion hen dŷ yn Nhancoed, Cwrtnewydd yn ystod y gaeaf. Treuliau ran o'r haf mewn adfeilion tŷ ar ben hewl Tregynan Isaf yn Llanrhystud. (Ble gwelir Cofiwch Dreweryn ar wal y murddun heddiw.) Roedd yn arlunydd gwyh ac yn gwneud cardiau cyfarch arbennig, ac yn eu gwerthu am 3c yr un. A fedr rhywun ychwanegu at yr ychydig wybodaeth hyn ac efallai rhoi cyfle i lungopio rhai o'r cardiau. Efallai fod gan rywun ddarlun o'r carcharor i rannu â ni hefyd. Cysylltwch ag 01570 480590.

Diolch, CLONCYN

# Cwrtnewydd

## Diolch

Dymuna Gertie Walters, Bryneryl, Cribyn ddiolch am y cyfarchion, y llw o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Huw Evans, Alltgoch ar ennill y gadair yng Ngŵyl Fawr Aberteifi eleni ac hefyd ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau gan ddod yn gyntaf am Gerdd yn ymateb i un o ffotograffau yng nghyfrolau Geoff Charles, gan nodi'r llun a'r ffynhonnell.

## Dymuniadau gorau

Pob dymuniad da i Helen Davies, Bwlch y Berllan ar ôl iddi orffen dysgu yn Ysgol Gynradd Penrhyncoch ar ddiwedd Tymor yr Haf.

## Byd Rhedeg

Llongyfarchiadau i Glyn Price, Castle Green ac aelod o Glwb Rhedeg Sarn Helen ar ei holl lwyddiannau ym myd rhedeg yn ystod y flwyddyn. [Gweler adroddiad Sarn Helen].

## Mabolgampau

Yn dilyn tywydd anffafriol iawn bu'n rhaid i'r pwyllgor ohirio'r Mabolgampau blynyddol yn ystod mis Gorffennaf. Ond fe benderfynwyd wedyn i gynnal noson ar Fedi'r 7fed i gynnal y Mabolgampau am 5:00 o'r gloch

i blant yn UNIG. Felly cofiwch gefnogi.

## Priodas

Llongyfarchiadau i Trystan Gruffudd, Fferm y Cwrt ar ei briodas yn ddiweddar â Ceri Wozencraft o Landrindod Wells.

## Sioe Frenhinol

Llongyfarchiadau i Paul Williams, Clyncoch a Huw Evans, Alltgoch ar ennill nifer o wobrau yn y Sioe Frenhinol nôl ym mis Gorffennaf.

## Cyrddau Diolchgarwch y Pentref

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion ar Nos Iau, Hydref 1af am 7:00 o'r gloch gyda'r Parch Judith Morris yn pregethu.

Yna ar Nos Lun, Hydref 5ed bydd Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn am 7:00 o'r gloch gyda'r Parch Eileen Davies, Llanllwni yn pregethu.

Croeso cynnes i BAWB i'r ddau gyfarfod.

## Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd

Bydd Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd yn ail-gychwyn ar ôl saib yr haf ar brynhawn ddydd Mawrth 8fed o Fedi 2009 am 1.15 – 3.30 yn Neuadd yr Ysgol. Dyma gyfle gwyh i famau gyda phlant oedran babis - 4 oed i ymuno mewn gweithgareddau, chwarae, paned a chlonc. Croeso cynnes i bawb. Os am ragor o fanylion cysylltwch â 01570 481065 neu 01570 480120.



**Gwyn Lewis**

Cyf

Cyflenwi a gosod:  
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,  
Cladinau Wal,  
yn ogystal â Gwelyau,  
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
Ffôn a Ffacs: 01570 423984  
Adref: 01570 423349

**Gwesty'r Grannell**

Llanwnnen



Bwyd cartref ardderchog,  
Ystafell wydr newydd,  
Yn arlwyio ar gyfer pob  
achlysur,

Ystafelloedd en-suite,  
Trwydded ar gyfer priodas.  
Cysylltwch â Susan neu Siriol  
☎ 01570 480476



Gall y driniaeth yma eich helpu, os  
ydych yn dioddef o'r canlynol:

- \* Blinder / diffyg egni
- \* Meigrin
- \* Sciatica
- \* Irritable Bowel Syndrome
- \* Menstrual problems
- \* a mwy

Os am ragor o wybodaeth  
cysylltwch â Carol Rees  
01545 590164  
07929 559561

**Tim Jones**



**Ffotograffydd**

Llainwen, Rhodfa Glynhebog  
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol  
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETHT ETIFEDDIAETH A  
MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth  
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

**Arnold Davies**  
**Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbedr  
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

# Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



**Betws Bledrws, Betws Ifan a Betws Lleucu**

'Llan', mae'n siwr yw'r elfen fwyaf cyffredin mewn enwau lleoedd yng Nghymru - ac erbyn hyn mae'n dynodi 'eglwys' fel yn achos Llangybi 'Eglwys Cybi'.

Mae Betws yn enw ar adeilad eglwysig hefyd. Mae'n air benthyc - wedi'i fenthycu o'r Saesneg 'Bead-house'. Erbyn hyn mae 'bead' gan amlaf yn dynodi gleiniau, gleiniau sy'n gymorth i weddio, ond yn wreiddiol cyfeirio a wnâi 'bead' at y weddi ei hun, gweddi a fyddai'n cael ei llafarganu yn y 'bead-house' neu yn y Betws wrth fyseddu'r gleiniau.

Mae'n syndod, o gofio'i darddiad, mai anfyndych iawn y digwydd yr enw 'bead-house' yn Lloegr ac ar yr adegau prin hynny lle y mae'n digwydd, mae'n dynodi 'oratori' neu 'gapel' hynny yw tŷ gweddi.

Syndod arall, efallai, yw nad yw 'bead' yn digwydd yn elfen mewn enwau lleoedd yn Lloegr o gwbl; yma yng Nghymru, ar y llaw arall, mae Betws yn elfen ddigon cyffredin mewn enwau lleoedd naill ai fel elfen sy'n sefyll ar ei phen ei hunan fel yn achos Betws ger Rhydaman neu yn elfen mewn enw lle fel yn Betws-y-coed yng Ngwynedd neu Betws Pen-pont yn Sir Frycheiniog.

Yn aml iawn bydd enw rhanbarth weinyddol yn dilyn yr enw Betws fel yn achos Betws Cedewain ger y Drenewydd neu Betws Tir Iarll yn Sir Forgannwg neu Betws-yn-Rhos yn Sir Ddinbych. Bryd arall ceir enw sant yn dilyn Betws fel yn Betws Garmon neu Betws Gwerfyl Goch.

Mae mwy nag un Betws yng Ngheredigion lle ceir enw personol yn dilyn Betws: Betws Bledrws, Betws Ifan a Betws Lleucu yw'r mwyaf adnabyddus. Erbyn hyn colodd yr enwau Betws Ithel (Bron-gwyn bellach) a Betws Geraint ym Mhenbryn. Ffurf amrywiol ar eglwys Betws Bledrws yng Ngheredigion oedd Llanfihangel-y-betws. Bu ymgais yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i ddrychafu'r Bledrws neu'r Bledrws a goffeir yn Betws Bledrws yn sant ond yn anffodus doedd dim tystiolaeth o gwbl i gefnogi bodolaeth sant o'r enw Bledrws ac erbyn hyn derbynnir mai enw ar gymwynaswr lleol yw Bledrws neu Bledrws; lleygwr a oedd, o bosibl, wedi cyflwyno darn o dir i godi'r eglwys, ond person y diflannodd pob cof amdano yn niwl y canrifoedd. Tybir mai ffurf ar 'blaidd' yw'r elfen gyntaf yn ei enw; mae'r ail elfen yn fwy anodd ond gallai gynrychioli ffurf ar 'rhws' sy'n golygu egni neu rhwysg. Mae enghreifftiau o'r enw yn digwydd hyd at y 12fed ganrif.

Ioan Fedyddiwr a goffeir yn Betws Ifan. Daeth tir yn yr ardal yn eiddo i Ysbytywyr Slebech yn y 12 fed ganrif a nhw a gododd yr eglwys yno i goffâu eu hoff saint.

Mae hanes Lleucu a goffeir yn Betws Lleucu yn ddryys; anodd hyd yn oed, benderfynu a oedd hi'n sant o gwbl. Mae'r cyfeiriad cynharaf yn sôn am 'Betws Bydonith' (1281).

Ond sant neu beidio, roedd yr enw Lleucu yn un o'r enwau mwyaf poblogaidd ar ferched yn ystod yr Oesoedd Canol. Ym mhapurau stad Rhydodyn ceir sôn am Lleucu ferch Dafydd Goch o Lansadwrn yn 1577; ac yn 1602 crybwyllir Lleucu ferch William Thomas o Gaeo. Ceir yng Nghaeo, Llwyn Lleucu (1614) a Rhan Lleucu ferch Dafydd ap Llywelyn ap Gwilym (1619).

## O Siambr Cyngor Sir Gâr gan Pryfyn



Mae'n dda gan Pryfyn allu cynnwys newyddion da wrth iddo ailgydio yn y gyfres hon o sylwadau.

Yn y lle cyntaf rhaid llawenhau y bydd Neuadd Bro Fana yn Ffarmers yn elwa ar grant o hyd at £15,500 gan Lywodraeth y Cynulliad dan Gynllun Datblygu Cymru Wledig. Mae hyn yn ddi-os yn newyddion da a chalonnogol i ardal eang yng ngogledd Sir Gaerfyrddin a rhaid llongyfarch y pwyllgor lleol blaengar ar lwyddiant digamsyniol y rhaglen ddifur a drefnir yn flynyddol ganddynt ar gyfer cymunedau lleol.

Wrth groesawu'r newyddion nododd Eirwyn, yr aelod lleol sy'n cynrychioli'r ardal ar y Cyngor Sir, fod y Neuadd yn cael ei defnyddio gan ystod eang o grwpiau a chymdeithasau. Mae'n fwriad yn y pen draw i sefydlu siop chaffe yn y Neuadd. Y gobaith yw y ceir caniatâd cynllunio i wneud hyn yn fuan fel bod modd cynnig gwasanaeth gwerth chweil ychwanegol i'r pentref. Y ddwy wraig a oedd yn arfer darparu cinio i blant yr ysgol gynradd sydd y tu ôl i'r syniad. Maent i'w llongyfarch a'u canmol am weledigaeth y byddai'n dda petai ardaloedd eraill yn gallu ei dilyn.

Ychwanegodd Eirwyn: "Mae'n siwr gen i y bydd hyn yn wasanaeth y bydd y gymuned yn ei groesawu a'i ddefnyddio. Ond bydd hefyd yn galluogi ehangu'r defnydd a wneir o'r neuadd, gan y bydd y grant yn mynd tuag at adnewyddu'r gegin a'r storfa, a bydd y rheiny ar gael ar gyfer digwyddiadau cymunedol hefyd. Dwi'n hynod o falch fod y cais hwn am grant wedi bod yn llwyddiannus, ac yn dymuno'n dda i'r fenter newydd."

Ac mae newydd calonogol am ddyfodol bws cymunedol i wasanaethu ardaloedd Llanbydder, Llanllwni a Chwmann. O ganlyniad i waith ymgyrchu caled gan y ddwy aelod lleol ar y Cyngor Sir, Fiona a Linda, mae pob gobaith y bydd dyfodol y bws wedi'i warantu am y dyfodol rhagweladwy. Mae pwyllgor newydd wedi'i ffurfio i reoli'r gwasanaeth o blith cynrychiolwyr gwahanol fudiadau cymunedol lleol a oedd yn bresennol mewn cyfarfod llwyddiannus yn Llanbydder yn ddiweddar.

Mae'r pwyllgor wedi elwa eisoes o brofiad cynlluniau cymunedol llewyrchus tebyg mewn ardaloedd gwledig yng Ngheredigion ac yn Sir Benfro a'r gobaith yw y bydd modd i'r gwasanaeth newydd weithredu'n fwy effeithiol na'r trefniant rhwystredig a oedd yn plesio neb yn y gorffennol. Mewn un ardal yn Sir Benfro mae gan y gymuned dri bws i'w gwasanaethu. Daeth ein cynrychiolwyr newydd ar y Cyngor Sir â gweledigaeth newydd a derbyn cefnogaeth unfrydol gan swyddogion Cyngor Sir Gaerfyrddin Mr Matt Morden a Mr Craig Thomas.

Mae ymhell o fod yn Nadolig yn Llanbydder, Llanllwni, Cwmann a Ffarmers ond mae ein trindod o aelodau ar y Cyngor Sir, Eirwyn, Fiona a Linda, i'w llongyfarch am ddygnu arni dros y llecyn hwn o ogledd Sir Gaerfyrddin. Nid ar chwarae bach y ceir y maen i'r wal gyda phethau fel hyn.

## Gohebiaeth Clonc



Annwyl Gyd-Eisteddfodwyr,

Fe gynhelir Gŵyl Cerdd Dant Cymru eleni yng Nghasnewydd ar Sadwrn, Tachwedd 14eg. Fis cyn hynny, ar nos Wener Hydref 16eg, fe gynhelir Eisteddfod y Cymoedd yn Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach. Bydd hwn yn gyfle gwyh i gorau a phartion a phedwarawdau ac unigolion i gael llwyfan ac ymarfer cyn mentro i Gasnewydd.

Dyma drydedd Eisteddfod y Cymoedd ac mae hi'n mynd o nerth i nerth. Byddai Iola Llwyd, Ysgrifenyddes yr Eisteddfod. Cysylltwch â hi ar 07891 177983 neu ar iola.llwyd@mac.com Yn gywir, R Alun Evans, Cadeirydd Eisteddfod y Cymoedd





## MEDI

- 7 Mabolgampau Cwrtnwydd i BLANT yn UNIG – i gychwyn am 5:00y.h.
- 12 Cynhelir Mabolgampau yng Nghaeau Pentref Llanllwni am 1.30y.p. Lluniaeth ysgafn ac amryw o stondinau. Mynediad - £2, plant ysgol a phensiynwyr am ddim. Elw tuag at Ysgol Gynradd / Cylch Meithrin Llanllwni.
- 13 – 19 Apêl y Gors – wythnos o godi arian gan bentref Gorsgoch.
- 13 Gymanfa Ganu yng nghapel Brynhafod, Gorsgoch, o dan arweiniad Elonwy Davies. Organyddes – Carys Evans. Artistiaid – Lleisiau'r Werin.
- 16 Rasmus Parlwr yng Nghefn-hafod.
- 18 Eisteddfod Ddwl yn y babell yng nghaeau Glwydwern.
- 19 Diwrnod o hwyl: Ras hwyl, 'it's a knock out', chwaraeon potes, BBQ, arwerthiant, coets, a nifer o stondinau. Dawns i'w ddilyn, gyda Gwibdaith Hen Fran a Newshan.
- 21 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Hydref.
- 25 Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys Llanwnnen i ddechrau am 7.30y.h. Elw tuag at Capel-y-Groes.

## HYDREF

- 1 Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnwydd gyda'r Parch Judith Morris, Aberystwyth am 7:00 y.h.
- 2 Noson Moes a Phryn yn Neuadd Seion, Cwrtnwydd dan nawdd Urdd y Benywod, Capel y Bryn am 7:30y.h.
- 3 Sioe'r Cardis 2010 yn cynnal Sioe Ffasiwn Duet gyda chinio a dawns yng Ngholeg Prifysgol Llambled.
- 5 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnwydd am 7:00 y.h. gyda'r Parch Eileen Davies, Llanllwni
- 5 Cinio Dathlu Diemwnt S.Y.M. Coedmor Cwmann yng ngwesty Glynhegog Llambled.
- 5 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Groes am 7y.h. gyda'r Parch Goronwy Evans.
- 13 Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan am 7:00y.h. Gwasanaethir gan Y Parch John Gwilym Jones, Caerfyrddin.
- 14 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos.
- 15 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7:30 y.h. gyda Delyth Morgans, Aberystwyth
- 17 Noson gyda y grŵp Montre yn y Llew Du Llanybydder am 8.30 o'r gloch. Yr elw tuag at Ymchwil y Cancr. Tocynnau yn £6 gan aelodau'r gangen leol.
- 18 Cwrdd Diolchgarwch Capel Alltyblaca am 5y.h. gan y Parch Aled Jones.
- 18 Cwrdd Diolchgarwch Capel Cae'ronnen am 7y.h gan y Parch Eric Jones.
- 24 Perfformiadau gan enillwyr Ceredigion o'r Rhuban Glas yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghapel Soar, Llambled a'r elw i Sioe Frenhinol Ceredigion 2010.
- 26 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Tachwedd.
- 29 a 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.
- 31 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint yn Neuadd Coriniaid Pumsaint am 11:30y.b. gyda'r cyfyngedig a'r agored am 2:30y.p. Rhagor o fanylion: Mair Williams 01558 650292.

## TACHWEDD

- 2 Cwrdd Diolchgarwch Capel Llidiad Nenog am 7y.h. Pregethir gan y Parch Eirian Lewis.
- 23 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Rhagfyr.
- 24 Arddangosfa Goginio gan Sirian Davies yn Festri Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.
- 28 Arwerthiant blynyddol Seion, Cwrtnwydd am 3:00 y.p
- 28 Cylch Meithrin Llanllwni yn cynnal 'Ffair Gaeaf', yn Neuadd Cymunedol Llanllwni.
- 28 Cic-gychwyn i'r Nadolig yn Neuadd Fwyd Lloyd Thomas Coleg Llambled. Elw at apel Nyrs Calon Ceredigion Sefydliad y Galon.

## IONAWR 2010

- 25 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Chwefror.

## CHWEFROR

- 15-19 Wythnos Adloniant C.Ff.I. Ceredigion.
- 22 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Mawrth.

## Sioe Cwmsychpant 2009

Ar ddydd Sadwrn, Awst 8fed cynhaliwyd Sioe Flynyddol Cwmsychpant a'r Cylch ar gaeau Waun, Rhydowen drwy garedigrwydd Mrs Ella a Vernon Davies.

Y flwyddyn yma roedd y tywydd ar ein hochr a chafwyd diwrnod llwyddiannus iawn unwaith yn rhagor. Eleni, roedd yr elw yn mynd tuag at Cyd-Ymatebydd Gwasanaeth Tân Llandysul a chodwyd swm sylweddol a fydd yn cael ei drosglwyddo nes ymlaen yn y flwyddyn.

Bu'r Treialon ymlaen yn gynnwys iawn y bore tan 8.00 yr hwyr ac roedd y cynnyrch a welwyd yn y babell o safon uchel a'r babell yn orlawn ac yn werth ei gweld.

Am dri o'r gloch cafwyd araith bwrpasol gan ein llywydd sef Mrs Sara Humphreys-Jones, Frongelli, Alltyblaca. Mawr yw ein diolch iddi am ei rhodd haelionus.

Ar ddiwedd y prynhawn cynhaliwyd ein gwerthiant blynyddol llwyddiannus gyda Sion Jenkins a Dewi Jones wrth y llyw.

I ddod â diwrnod bythgofiadwy i ben cafwyd cwmni Sherrie a Steel a Ffushanti. Daeth cynulleidfâ niferus i wrando a mwynhau eu perfformiadau arbennig.

Rhestr enillwyr y cwpannau:

**Gwinoedd:** Megan Richards, Brynderi, Aberaeron. **Cyffeithiau:** Lloyd Edwards, Maesceio, Penrhyncoch. **Coginio:** Sian Jenkins, Tyllwyd, Maestir, Llambled. **Gwaith Llaw:** Eluned Davies, Bryniau, Dihewyd. **Crefft:** Aled Dafis, Clos y Castell, Caerwedros. **Ffyn:** Andrew Jones, Cwmgwyn, Pentrebach. **Ffotograffiaeth:** Elin Jones, Nantyrnollen, Felinfach. **Arlunio Plant Bl. 2 a thano:** Libby Waterman, Ysgol Cwrtnwydd. **Madeline Smith,** Ysgol Cwrtnwydd. **Bl. 3 a 4:** Gwen Thomas, Ysgol Llanwenog. **Bl. 5 a 6:** Coral-Ann Newman, Ysgol Capel Dewi. **Adran Plant - 8 a thano:** Cerys Pollock, Brynmeddyg, Cwmsychbant. **9 a than 12:** Meinir Davies, Caerwenog, Penffordd. **12 a than 17** Carwyn Davies, Caerwenog, Penffordd. **Adran Blodau:** Sara Humphreys-Jones, Frongelli, Alltyblaca. **Celfyddyd Blodau:** Julia Davies, Tafarn Bach, Pontsian. **Cynnyrch Gardd:** Aeron Davies, Llainffynnon, Cribyn. **Adran**

**Ceffylau:** Carys Davies, Y Cartws, Rhydowen. **Adran Ceffylau**

**Plant:** Glyn Hughes, Llanarth a Heledd Jenkins, Llysfaen Uchaf, Llanwnnen. **Adran Defaid:** Morgans, Glwydwern, Gorsgoch. **£25 Tocyn:** Jones, Meinigwynion, Gorsgoch. **Treialon Cŵn Defaid – Cenedlaethol Agored – P Tomkins,** Llandrindod Wells gyda Peg. **Nofis Cenedlaethol – I Ll Evans,** Ystrad Meurig gyda Jim. **Agored De Cymru – J Rees,** Llandudoch gyda Floss. **Nofis De Cymru – M Jones,** Maesybont gyda Glen.

Dymuna pwyllgor Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chymorth a dderbyniasant i wneud sioe eleni eto yn un llwyddiannus.

## Priodas Ruddem

Ar ddiwedd mis Gorffennaf dathlodd Eirwyn a Mary Davies, Maesnewydd eu Priodas Ruddem. Gobeithio i chi fwynhau'r diwrnod.

## Swydd Newydd

Croeso nôl i'r ardal i Hedydd Jones, Talar Wen wrth iddi ddechrau fel athrawes yn Ysgol Gyfun Llambled ac hefyd i'w mam Elenid ar ei swydd yn Ysgol Gynradd Talgarreg.

## Graddio

Graddiodd Catrin Jones, Talar Wen o Goleg Prifysgol Aberystwyth yn ystod yr Haf. Dymuniadau gorau i ti wrth i ti fynd nôl i wneud Ymarfer Dysgu.

## 80oed

Dathlodd Jackie Ryder, Tyngrug ganol ei benblwydd yn 80oed yn ystod mis Awst. Gobeithio Jackie y cewch fwynhau iechyd da eto am flynyddoedd lawer.

## Arholiad Piano

Llongyfrachiadau i Meinir Davies, Caerwenog ar basio Gradd 4 Piano gyda Theilyngdod. Pob hwyl i'r dyfodol.

## Diolch

Dymuna Jackie Ryder, Tyngrug-ganol ddiolch yn ddi-ffuant iawn iawn i bawb am y cardiau, anrhegion a chyfarchion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd arbennig ar ddechrau mis Awst.



Rhai o'r genhedlaeth hŷn yn cofio'r dyddiau a fu yn dilyn y dyrnwr o fferm i fferm cyn dyfodiad y 'combine'. Mae'r dyrnwr Foster yma yn eiddo i Iwan Evans Coed Fardre, Pontsian.

# O'r Cynghorau Bro



## Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Tom Jones; Clerc: Eirlys Davies; Gohebydd y Wasg: Dewi Davies; Cynghorydd Sir: Linda Evans

Cyfarfu'r Cyngor ar 13 Gorffennaf 2009

Cyn dechrau'r cyfarfod estynwyd cydymdeimlad dwys â Tom Jones ar farwolaeth sydyn ei frawd a dymunwyd gwellhad buan i John sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar gan yr is-gadeirydd Emyr Evans.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a chyflwyno Lynne Beer, Galluogydd Tai Gwledig y Cyngor Sir, i'r cyfarfod. Cafwyd eglurhad ganddi am ei dyletswyddau sef ceisio galluogi ieuencid ein cymuned i rentu neu brynu tai y maent yn gallu eu fforddio. Penderfynwyd bod holiadur yn cael ei ddanfoni i bob tŷ yn y gymuned i gael gweld beth oedd yr anghenion lleol, ac yna byddai'n mynychu cyfarfod o'r Cyngor Bro eto ymhen ychydig fisoedd i drafod y canlyniadau.

Cadarnhawyd bod y gwaith o gasglu sbwriel ger Mountain Gate dan y cynllun gwasanaeth cymunedol wedi ei gwblhau.

Gwaith ar y ffyrdd: Beilibach-Gwarewm, Heol Pant-llyn Tarmac ar yr hewl a'r gwaith wedi ei gwblhau gan y Cyngor Sir.

Gwefan: Mae'r gwaith o sefydlu gwefan i'r plwyf yn mynd yn ei flaen.

Yswiriant: Cysylltwyd â'r cwmni yswiriant ac nid oedd angen tâl ychwanegol i ddiogelu plant yn y Cae Chwarae. Ond yr oedd angen i rai o'r Cynghorwyr archwilio'r maes chwarae a'r adnoddau yn rheolaidd, a'r clerics i wneud cofnod o hyn.

Y Cae Chwarae: Mae'r gwaith o atgyweirio / gosod postyn ym mwlch y cae chwarae wedi ei gwblhau a diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr am eu cymorth. Derbyniwyd dogfennau gan ymddiriedolwyr a phwyllgor y Cae Chwarae yn caniatáu i berchenogaeth y cae gael ei drosglwyddo i'r Cyngor Bro Cwter ger Glynricked: Derbyniwyd llythyr yn egluro bod y mater wedi ei archwilio gan adran y pontydd a bod y gwyter yn gweithio yn iawn. Ger-y-bryn a Green Park: Y mae'r Cyngor Sir wedi ymweld â'r ddau safle yma sawl gwaith o'r blaen a byddant yn defnyddio camera i geisio gweld beth yw'r broblem. Gweithdy ger y Swyddfa Bost: Mae'r mater yn nwylo Mr Alex Side o'r adran drafnidiaeth a fydd yn delio â phalmentydd newydd o fewn y gymuned ac a fydd yn cysylltu â'r Clerc cyn hir. Ffynnon-ddrain-Cefncoeduchaf: Nid oedd datblygiad pellach ynglyn ag ailgodi'r arwyddion yn dynodi 'dim traffic yn gallu mynd trwodd' ac 'anddas i gerbydau trwm'. Plismona o fewn y gymuned: Nid oedd gwybodaeth am y cyrch cyffuriau diweddar. Goleuadau stryd: Penderfynwyd holi barn trigolion cyfagos cyn mynd ymlaen â'r gwaith. Cylch Meithrin Llanllwni: Cytunwyd ar gefnogaeth a alluogai'r cylch i agor yn ystod mis Gorffennaf.

## Cyngor Tref Llambod

Maer: Selwyn Walters; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 25 Mehefin 2009 yn Neuadd Eglwys San Pedr, Llambod Pont Steffan.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer a chyn i'r cyfarfod ddechrau cyflwynwyd plac bychan i Mrs Janet Evans i gydnabod ei gwaith diflino gydag Aelwyd yr Urdd yn Llambod Pont Steffan ac am ei chyfraniad fel gohebydd lleol y Cambrian News. Diolchodd Mrs Evans i'r Cyngor am y rhodd ac am eu cefnogaeth gyson i Eisteddfod Pantyfedwen ac i'r Urdd.

Croesawyd yr Arolygydd Nicola Carter i'w chyfarfod cyntaf ac amlinelloedd pa bwerau fyddai gan yr heddlu wedi i'r parth di-alcohol gael ei sefydlu. Ychwanegodd y Maer bod trafodaeth ar y pwnc hwn wedi bod yn llusgo ymlaen ers tair blynedd ac roedd y Cyngor yn awyddus iawn i gael y maen i'r wal mor fuan â phosibl. Manylodd yr Arolygydd ar yr ystadegau troseddu diweddaraf gan ddangos mai Llambod yw un o'r trefi mwyaf diogel i fyw ynddo ar draws y DG. Bu gostyngiad o 8 yn nifer y lladradau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Roedd yr aelodau'n dal i ofidio am drafnidiaeth yng nghyffiniau Mountwalk ac am barcio yn Lôn y Felin.

Nodwyd bod Dr Medwin Hughes wedi'i benodi'n Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Llambod Pont Steffan ond nad oedd y brifysgol newydd sef Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn weithredol eto.

Nododd y Maer bod cwmni Sainsbury yn awyddus i gyfrannu at gynllun cymunedol a bod cynllun Maesyderi wedi ei awgrymu.

Nodwyd y byddid yn darparu dwy sedd yn Swyddfa'r Post i'r cwsmeriaid. Byddai'r siop yn cael ei gweddnewid yn ystod y misoedd nesaf. Byddid yn holi am seddau ond ni ellid addo'r un dim gan na fyddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn lleol.

Tynnodd yr aelodau sylw at wallau yn arwyddion dwyieithog Sainsbury's.

Gofidiai'r aelodau am ddiffyg manau parcio ar gyfer lorïau trymion a bysiau yn y dref. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 30 Gorffennaf am 7.30 yn Neuadd Eglwys San Pedr.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod ar 30 Gorffennaf gan y Maer.

Nodwyd bod ffiniau'r parth di-alcohol wedi'i sefydlu erbyn hyn. Byddai'n

cwmpasu Sgwâr Harford, Stryd y Coleg, Parc yr Orsedd, rhan o Heol y Bont, Heol y Bryn, Heol yr Eglwys, Y Stryd Fawr, Stryd y Farchnad, Parc Temple Terr., rhan o Temple Terr., meysydd parcio Ffordd Cambrian.

Mae meinciau wedi'u harchebu ar gyfer Parc yr Orsedd.

Mae Cyngor y Dref wedi anfon sylwadau at y Cyngor Sir parthed datblygiad Addysg Uwchradd yng Ngheredigion. Gwnaed sylwadau, yn ogystal, ar gynllun gweithredu Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru. Gellir gweld copi o bob ymateb yn Llyfrgell y Dref.

Nid yw gwefan Cyngor y Dref yn bodoli bellach a phenderfynwyd sefydlu gwefan swyddogol i'r dref dan ofal y Cyngor.

Penderfynwyd cynllunio gorymdaith trwy'r dref pan fydd y Gwarchodlu Cymreig yn dychwelyd o Affganistan.

Nodwyd bod Mr Gabriel Restucha, perthynas i Mrs Morfudd Slaymaker, wedi'i ethol yn Faer y Gaiman, Patagonia yn ddiweddar.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 27 Awst am 7.30 yn Festri Shiloh.

## Cyngor Bro Llanybydder

Cadeirydd: Mrs P Burke (is-gadeirydd); Clerc: Mavis Beynon;

Cynghorydd Sir: Fiona Hughes

Cyfarfu'r Cyngor ar 28 Gorffennaf 2009

Derbyniwyd ymddeoliad y Cyng Aneurin Davies gyda thristwch. Gwelir colli ei arweiniad cadarn a'i farn gytbwys yng nghyfarfodydd y Cyngor Bro. Mae Ymddeoliad Aneurin yn gadael lle gwag ar y Cyngor a dylai'r rheini â diddordeb gysylltu â'r Clerc: Mrs Mavis Beynon, Castle Green, Llambod Pont Steffan.

Mae yfed alcohol yn y parc yn dal i beri gofid. Mae arwyddion dwyieithog i'w codi yn nodi bod y parc yn barth di-alcohol.

Bu cynnydd yn ddiweddar yn nifer y mân ladradau yn yr ardal. Mae'r heddlu'n ymwybodol o hyn ond rhaid i'r Cyngor Cymuned rhybuddio pawb o bwysigrwydd gwyliadwraeth a diogelwch ar adeg fel hyn.

Mae goryrru, cyflwr drwg y ffyrdd a gwaredu sbwriel yn anghyfreithlon yn bynciau y mae'r Cyngor Bro yn dal i ddiwyd geisio'u datrys.

## Cyngor Bro Pencarreg

Cadeirydd: Eiddig Jones; Clerc: Eric Williams; Cynghorydd Bro a Sir:

Eirwyn Williams; Cynghorydd Sir:

Fiona Hughes

Cyfarfu'r Cyngor ar 16 Gorffennaf 2009

Datganodd y cynghorwyr eu dicter bod y difrod a achoswyd i'r wal rhwng Sgwâr Cwmann a phont Teifi yn dal heb ei hatgyweirio gan y Cyngor Sir. Aeth chwe mis heibio bellach ers i'r Cyngor Bro dynnu sylw'r Sir at gyflwr y wal ac erbyn hyn mae 33 o feini yn aros i'w hailosod. Hyderir yn fawr y gwelir gweithredu pendant ar y mater hwn yn fuan. Roedd y cynghorwyr yn arswydo wrth glywed bod y palmant y maent wedi bod yn brwydro i'w gael ger Sgwâr Cwmann yn awr wedi'i dynnu oddi ar restr blaenoriaethau'r Cyngor Sir. Cyflwynwyd deiseb i'r Cyngor Sir naw mlynedd yn ôl, a hefyd bu taith gerdded yn y pentre i brotestio am y diffyg.

Cymeradwywyd cais am ganiatâd cynllunio i ddau dŷ ger Tanfron Pencarreg.



## Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas; Clerc: Wenella Evans; Cynghorydd Sir: Haydn Richards

Cyfarfu'r Cyngor ar 28 Gorffennaf 2009

Ymunodd PCSO Ryan Jones o Swyddfa'r Heddlu, Llambod â'r cyfarfod am gyfnod ac fe drafodwyd rhai materion perthnasol yn ei bresenoldeb. Bydd fan heddlu Dyfed Powys yn symud i waelod pentref Cwrtnewydd ger y Red Lion gan fod cais wedi dod i'r Cyngor.

Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at yr Adran Gynllunio yn Aberaeron gan nad yw'r Cyngor Cymuned yn hapus â'r rheol i ymateb i bob cais cynllunio o fewn 14 diwrnod. Nid yw'r Cyngor Cymuned ond yn cwrdd unwaith y mis a golyga hyn nad yw'n bosib ymateb i bob cais dan yr amodau a fynnir.

Daeth llythyr o ddiolch oddi wrth Sioe'r Cardis am rodd a anfonwyd atynt cynt, hefyd derbyniwyd llythyr oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn diolch am ymateb prydlon parthed y Polisi Iaith.

Mae dau arwydd newydd 'Llanwenog' wedi'u derbyn, a'r ddau yn eu lle erbyn hyn bob ochr i ben ffordd yr eglwys.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8 Medi 2009 am 7.30 y.h.





## Fforwm Ieuenctid

Cynhaliodd y fforwm 'It's a Knockout' ar gyfer aelodau'r mudiad o dan 18 ar y 1af o Orffennaf yng Nghel-aeron. Bu'r noson yn un hwylus iawn o dan arweiniad Mr Geraint Hatcher a Mr Eifion Morgans. Tîm o Bro Dderi a enillodd eleni, da iawn!

## Elusen y Flwyddyn



Trosglwyddwyd sic e i Gadeirydd C.Ff.I. Cymru sef Rhys Owen, tuag at elusen y mudiad eleni sef Clefyd y Siwgrwr Cymru ar y 15fed o Orffennaf. Codwyd swm o £4,529.35 rhwng y clybiau canlynol: Bryn Herbert, Dihewyd, Felinfach, Llangeitho, Llanwenog, Mydroilyn, Pennant, Pontsian, Talybont a Troedraur.

## Sioe Frenhinol 2009

Bu cystadlu brwd o fewn y mudiad Ffermyr Ifanc yn y Sioe Frenhinol eleni rhwng yr 20fed a 23ain o Orffennaf. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu a sicrhodd yr 2il safle i C.Ff.I Ceredigion yng nghwpan NFU ar ddiwedd yr wythnos. Dyma rhai o'r canlyniadau:

- 1af - Sioe Pypedau – Bryngwyn
- Cystadleuaeth yr Aelodau
- Bonesig a'i chi – Geraint a Dewi Jenkins, Talybont
- 2il - Meimio – Caerwedros
- Crefft – Sioned Owens, Pennant
- 3ydd - Dawnsio – Pontsian
- Coedwigaeth – Eilir Williams a Dion Davies, Pontsian
- Blodau – Elen Jones, Tregaron
- Coginio – Sara a Sian Downes, Llangeitho
- Barnu Gwartheg Charolais – Dan 18 – Ceris James, Bryngwyn
- Barnu Gwartheg Charolais – Dan 16 – Dewi Jenkins, Talybont
- Tynnu'r Gelyn Merched – Ladis Pinc

## Treialon Cŵn Defaid

Cynhaliwyd treialon cŵn defaid y Sir eleni ar gaeau Morfa, Llanrhystud ar y 5ed o Awst. Llywydd y dydd oedd Ieuan Jones, Penbwlch a'r beirniad oedd W.P.Lloyd Jones, Ystrad Llanio. Bu nifer yn cystadlu ar ddiwrnod braf o haf. Llongyfarchiadau i Aled Llŷr Thomas, Talybont ar ennill y gystadleuaeth Ffarmwr Ifanc gorau'r dydd.

## C.C.B.

Cynhelir cyfarfodydd cyffredinol blynyddol clybiau'r Sir drwy gydol mis Gorffennaf a Awst. Dymuniadau gorau i'r swyddogion newydd ar eu blwyddyn sydd i ddod a diolch i'r hen swyddogion am eu gwaith dros y flwyddyn diwethaf.

## Diddordeb ymuno gyda C.Ff.I Ceredigion?

Os ydych chi rhwng 10-26 oed a bod gennych ddiddordeb yn ymuno â chlwb o fewn y Sir, ffoniwch 01545 571 333 neu e-bostiwch Marek neu Ann ar [ceredigion@yfc-wales.org.uk](mailto:ceredigion@yfc-wales.org.uk) i gael fwy o fanylion ar sut i wneud hynny. Dewch yn llw, cewch lawer o sbort a sbri!

## Clwb 200

Dyma enillwyr clwb 200 mis Gorffennaf:

- 1af – Mr & Mrs J. Evans, Rampant Lion, Capel Dewi
- 2il – Heather Price, Esgereinion,
- 3ydd – Janet Morgan, Rock Mills, Capel Dewi

## Blaenrhybudd o Ddigwyddiadau'r Sir

Medi 18 a 19 – Penwythnos Cyfarfod Blynyddol C.Ff.I. Cymru, Dinbych-y-Pysgod

Medi 23 – Pwyllgor Blynyddol y Sir

Medi 25 – Chwaraeon Dan Do, Llanddewi Brefi

Hydref 1 a 2 – Siarad Cyhoeddus Saesneg, Theatr Felinfach




Aeth pump aelod o'r clwb i Lanberis i gystadlu yn Ras Ryngwladol yr Wyddfa. Mae'r ras yn ddeg milltir ac yn dringo 3560 o droedfeddi i gopa'r Wyddfa. Yn ennill y ras am y pedwerydd gwaith oedd Andi Jones o Loegr mewn 1 awr 8 munud a 15 eiliadau, a phum munud ar ei ôl oedd Carwyn Thomas o'r clwb yn gorffen y ras mewn 1 awr 13 munudau a 53 eiliadau, ac yn hawlio'r unfed safle ar bymtheg (16eg) ac yn bedwerydd fel Cymro. 307- Dawn Kenwright 1 awr 54 munud 31 eiliadau, 324- Gareth Jones 1 awr 57 munud 25 eiliadau, 328- Caryl Davies 1 awr 58 munud 31 eiliadau, a 387- Jan Jones 2 awr 12 munud 2 eiliadau. Roedd Carwyn Thomas a Caryl Davies y ddau yn rhedeg eu hamserau gorau; trideg o flynyddoedd yn ôl rheddodd Dawn Kenwright ei ras gyntaf ar yr Wyddfa ac eleni dyma oedd y tro cyntaf i Gareth a Jan Jones.

Ar y Sul canlynol Glyn Price yn gorffen yn yr ail safle yn ras 'Bluestone challenge' ar fynydd Preseli ac yn gyntaf yn Adran dynion 40 - 1 awr 40 munud 24 eiliadau, 3ydd ac yn 2ail dynion 40 Michael Davies 1 awr 41 munud 43 eiliadau, 8 Haydn Lloyd 1 awr 49 munud 5 eiliad, 14 a 1af dynion 50 Tony Hall 1 awr 54 munud 39 eiliadau, 16 Mark Dunscombe 1 awr 56 munud 40 eiliadau, 20 Simon Hall 2 awr 20 eiliadau, 29 Huw Price 2 awr 11 munud 57 eiliadau, 50 a ail menywod 50 Monica Barlow 2 awr 29 munud 56 eiliadau, 53 David Thomas 2 awr 33 munud 48 eiliadau, 54 Robin Barlow 2 awr 36 munud 42 eiliadau.

10K Rhydaman, Glyn Price yn gorffen y ras yma eto yn yr ail safle ac yn gyntaf yn Adran dynion 40: 35 munud 27 eiliadau, 3ydd a 2il dynion 40 Michael Davies 36 munud 36 eiliadau, 11eg a 3ydd dynion 50 Richard Marks 40 munud 15 eiliadau, 14 Huw Price 41 munud, 22 Simon Hall 42 munud 57 eiliadau, 39fed a 3ydd merched agored Dee Jolly 47 munud 2 eiliad, 56 David Thomas 50 munud 56 eiliadau, 59 Caryl Davies 52 munud 3 eiliad, a 93 Allen Watts 1 awr 24 munud 25 eiliadau. Sarn Helen enillodd y tîm sef Glyn Price, Michael Davies a Richard Marks.

Ras Apêl Eisteddfod yr Urdd 3.6 milltir yn Aberaeron, Glyn Price yn ail 19 munud a 56 eiliadau, 3ydd Huw Price 23 munud 25 eiliadau, 4ydd Gareth Jones 26 munud 25 eiliadau, 5ed Jan Jones 29 munud 36 eiliadau.

Cyfes o dair ras mewn pump wythnos yw ras 'Poppit Sands', ar ôl y drydydd gyfres Carys Davies yn ennill y ras i'r menywod agored a Dee Jolly yn ail, a Jan Jones yn gyntaf menywod 45. Carwyn Thomas yn ail dynion agored, Simon Hall yn drydydd, a Tony Hall yn gyntaf dynion 50.



Glyn Price gafodd yr anrhydedd o ennill y wobwr a roddwyd gan Tywysog Cymru yn Ras wyth milltir yn Myddfai mewn amser o 49 munud 43 eiliad, 2il Mark Dunscombe 54 munud 18 eiliad, 3ydd Haydn Lloyd 57 munud 42 eiliad, 8fed Gareth Jones 1 awr 6 munud 6 eiliad a 9fed David Thomas 1 awr 6 munud 15 eiliad. Yn ras y menywod Caryl Davies yn ail, 1 awr 9 munud 34 eiliad a 4ydd Jan Jones 1 awr 17 munud 57 eiliad. Rhian Jones y ail yn ras y plant.

Dydd Sul oedd diwrnod ras Ingli 10K yn Abergwaun, 2il a 1af dynion 40 Glyn Price 34 munud 16 eiliad, 3ydd a 2il dynion 40 Michael Davies

35 munud 24 eiliad, 17 - Simon Hall 40 munud 55 eiliad, 19 - a cyntaf 50 Tony Hall 40 munud 58 eiliad, 55 - Lyn Rees 47 munud 29 eiliad, 56 - Andrew Edgell 47 munud 53 eiliad, 68 - Caryl Davies 52 munud, 69 - Jan Jones 52 munud 7 eiliad, 93 - Allen Watts 1 awr 23 munud 7 eiliad. Glyn Price, Michael Davies a Simon Hall enillodd y tîm.

Afallon  
Drefach

## Annwyl Ddarllenwyr,

Derbyniais alwad ffôn wrth i rifyn diwethaf Clonc fynd i'r wasg, oddi wrth ffrind o ddyddiau ysgol sef Arwyn Roberts o Landdewi. Deallais ei fod yn ddarllenwr ffyddlon o'n papur bro ac yn mwynhau colofn Yr Athro David Thorne ar 'Enwau Lleoedd'. Roedd Arwyn yn anghytuno â'r Athro ar un peth sef tarddiad yr afon Cothi.

Dywedwyd yn yr erthygl fel hyn, - "Mae afon Cothi yn enw sy'n gyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom ni; mae'n codi ar Fynydd Mallen...." Mae Arwyn yn fwy manwl fyth ac yn gosod lleoliad y tarddiant i du cefn murddyn o'r enw "Blaen Cothi" ac nid ar fynydd Mallen.

Diolch i Arwyn am dynnu ein sylw at hyn; mae'n hyfryd derbyn sylwadau ar ein hymdrechion. Gwerthfawrogwn hyn yn fawr.

Eifion.





Dyma rai o blant Ysgol Carreg Hirfaen ar ddiwrnod eu Taith Gerdded. Casglwyd swm sylweddol o £1,090.45. Hoffai swyddogion Pwyllgor Rhieni ac Athrawon yr Ysgol ddiolch i bawb am gefnogi.

## Diolch

Fe ddymuna teulu Raymond, Gelli Aur, Parcyrrhos ddatgan fod y swm anrhydeddus o £2,000.00 wedi ei gasglu mewn rhoddion er cof annwyl amdano a bod y cyfanswm wedi ei drosglwyddo yn haeddiannol iawn i Feddygfa Brynmeddyg, Llanybydder a'r Nyrsys Cymunedol a fu mor garedig a gofalus ohono. Carem ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am eu haelioni.

## Côr Meibion Cwmann a'r Cylch

Ar nos Fercher Gorffennaf 6ed, cafwyd noson mefus ac hufen, i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010, yn Festri Capel Brondeifi. Erbyn saith o'r gloch roedd y festri yn llawn – pawb yn mwynhau'r mefus a thipyn o ganu gan y côr. Methodd llywydd y côr, Mr. Alun Williams, Crown Stores fod yn bresennol, ond roedd wedi anfon cyfraniad da tuag at yr achos. Yn ei le, cafwyd geiriau pwrpasol a chyfraniad i'r achos gan Mr. Selwyn Walters, maer y dref. Diolchwyd i'r côr gan Miss Rhiannon Lewis ar ran pwyllgor codi arian Llambled, a dywedodd fod y targed i Llambled yn cael ei naddu lawr yn dda. Dymuna'r côr ddiolch i'r chwirydd a fu yn gweini yn y gegin ac i swyddogion ac aelodau Capel Brondeifi am gael defnyddio'r cyfleusterau. O ganlyniad, mae £800 wedi eu drosglwyddo i'r gronfa, ac mae diolch arbennig i Mr. David Hopkins Jones am ei haelioni tuag at y noson. Ers y noson, mae'r côr wedi canu ar ddau achlysur yn yr awyr agored – Gŵyl yr afon yng Nghenarth ac ar lwyfan y maes yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala – dau brofiad newydd! Os am ragor o fanylion am hynt y côr, ewch i'r wefan: [www.corcwmann.btk.com](http://www.corcwmann.btk.com)

## Hanner Marathon Caerdydd

Bydd Siân Roberts-Jones a Gethin Jones yn rhedeg hanner marathon Caerdydd ym Mis Hydref er mwyn codi arian tuag at ymchwil Motor Neurone er cof am eu hewythr Raymond Roberts. Os byddai unrhyw un yn hoffi noddi'r ddau mae ffurflenni noddi ar gael yn siop

J.H.Roberts a'i feibion neu yn Teify Forge.

## Plantos Bach

Bydd Plantos Bach yn ail agor ar Ddydd Gwener Medi 4ydd ar ôl gwyliau'r haf. Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan ar gae'r Pentref rhwng 10 o'r gloch y bore a 12 o'r gloch y prynhawn.

## Ysbyty

Dymuniadau gorau am wellhad buan i'r canlynol, Mrs. Evans, Irvana, Mrs. Bessie Edwards, Coedeiddig Fach a Evana Mason, 21 Treherbert.

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd canlynol, Mrs. Eirwen Davies, Hawydd ar farwolaeth ei chwaer, Mrs. Bessie Edwards gynt o Barcyrrhos a chwaer-yng-nghyfraith Mrs. Ceinwen Russell, Coedeiddig. Mrs. Eleanor Russell a'r teulu, Bryncelyn ar farwolaeth sydyn ei brawd yn Llansadwrn. Mrs. Muriel Davies a'r teulu, 2 Nantyglyn ar farwolaeth Mr. Irfon Davies ac o fewn rhai dyddiau ei nai, Mr. Stephen Evans, Barley Mow (gynt) yn frawychus o sydyn. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

## Penblwydd arbennig

Dathlodd sawl aelod o'r pentref ei penblwyddi yn 80 oed yn ystod y mis: Ieuan Jones, Arfyn, Yvonne Jones, Tanybryn a Dewi Davies, Murmur y Coed.

## Llwyddiant Eisteddfodol

Rydym i gyd yn ymfalchïo yn llwyddiant Elin Williams, Y Garn ar ennill gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn yn Eisteddfod y Bala eleni ac hefyd Guto, ei mab ar ennill cyntaf, ail a thrydydd yn y Genedlaethol. Tipyn o gamp yn wir. Da iawn chi.

## Cyfarchion Penblwydd

Dymuniadau gorau i Miss Bessie Griffiths, 1 Treherbert Tce., a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar yr 20fed o fis Medi. Penblwydd hapus iawn iddi.



## Bethel Parcyrrhos

Bu aelodau Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrrhos ar eu gwibdaith flynyddol ar Sul 12fed o Orffennaf. Cychwynnwyd o Gwmann am 9.30 y.b. a chyrraedd Rhaeadr Aberdulais tua chanol y bore lle cafwyd seibiant i gael lluniaeth a gweld hanes datblygiad y gweithfeydd haearn.

Yna cychwyn am Lancaich Fawr sydd yn Amgueddfa hanes byw. Rhaid oedd camu nôl mewn amser i 1645 a gweld sut oedd Maenordy cefnog yn cael ei redeg. Cawsom ein croesawu a'n tywys o amgylch gan weision y lle a oedd wedi gwisgo dillad y cyfnod ac yn siarad Saesneg hynafol yr amser hynny. Cawsom ddarlun clir sut oedd yr uchelwyr a hefyd y werin bobl yn byw'r adeg hynny.

Wedyn dechrau'r ffordd nôl a galw yn Nistyllfa Penderyn – yr unig un yng Nghymru a chael ein tywys o amgylch y lle a oedd mor lân a modern. Yna cael tipyn o hanes Cwm Nedd, hanes Lewis yr haliwr a'r ardal lle bu'n gweithio gan Ann Thorne.

Gorffennwyd y daith yng Ngwesty Mountain Gate ger Rhydaman lle cafwyd pryd ardderchog o fwyd i goroni blwyddyn arall o weithgareddau'r Gymdeithas.

## Ysgol Feithrin Coedmor



Ar yr unfed ar ddeg o Orffennaf, cynhaliwyd "Diwrnod Hwyl" ar gae'r pentref er mwyn dathlu penblwydd yr Ysgol Feithrin yn 30 oed. Cafwyd llawer o hwyl yng nghwmni Martin Geraint a Sarah Davies o'r Jambori wrth i'r plant fwynhau sesiynau o ganu, dawnsio a gweithgareddau amrywiol. Roedd y plant hefyd wrth eu bodd pan ddaeth Sali Mali, Jac y Jwc, Coblyn a Sam Tân i ymuno yn yr hwyl. Roedd pawb yn gallu crwydro o amgylch y stondinau amrywiol yn ogystal ag ymweld â'r Frigid Ddan, y cydymatebydd a'r ambiwlans. Cynhaliwyd Ocsiwn, barbeciw a rhostio mochyn yn ddiweddarach yn y prynhawn ac er gwaetha'r tywydd garw cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn. Llywyddion y dydd oedd Mr & Mrs Stan a Vivienne Evans, Coed-y-Waun, Parc-y-Rhos. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y diwrnod; y noddwyr, y bobl fu'n paratoi cyn y dydd, i'r rhai hynny a gynorthwyodd ar y dydd, ac i unrhyw un arall a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd.





Babanod Newydd

Llongyfarchiadau i Helen ac Euros, Penybryn ar enedigaeth mab bach, Rhun ac wyr arall i Ann a Ronnie Roberts, Brynview. Hefyd i John a June, Maesteg ar ddod yn famgu a thadcu i Mabli, merch fach Iona a Phil yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau i'r ddau deulu.

Priodasau

Priodas dda i Nia Wyn, Bryndolau ac Osian Williams, Silian. Hefyd i Owain Jones, Fferm Felindre a Bethan Owen o Aberdyfi a briododd yn ddiweddar. Pob hapusrwydd i'r ddau bâr yn eu cartrefi newydd.

Clwb 170 – Gorffennaf

1. Mr. Julian Evans, Dan-y-Wenallt, Falcondale Driver, 113, 2. Mr. Iron Williams, Bryneiddig, Cwmann, 116, 3. Eirwen Davies, Ffawydd, Cwmann, 83, 4. Mrs. Phyllis Price, Brynderi, Cwmann, 89, 5. Mr. Edwin Harris, 8 Nant-y-Glyn, Cwmann, 47, 6. Mr M. Evans, Dan-y-Wenallt, Falcondale Driver, 36, 7. Mrs. Williams, Brynmeurydd, Parc-y-Rhos, Cwmann, 71, 8. Mrs. Pat Davies, Dolcoed, Cwmann, 127, 9. Mr a Mrs. B. Hughes, Ramleigh, Cwmann, 50, 10. Mr a Mrs. Brennard, Pantunos, Cwmann, 101.

Clwb 225 – Gorffennaf

1. 232, Mr a Mrs. D. J. Davies, Wernfraith, Cwmann, 2. 23, Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 3. 14, E. Davies, Rhos Welier, Parcyrhoes, 4. 80, Christina a Shaun, Pleasant View, Llambled, 5. 142, Carol Powell, Penbryn, Cwmann, 6. 153, Phyllis Smith, 3 Priordy, Llambled, 7. 111, Dafydd Jones, Bara Gwalia, Llanybydder, 8. 129, Aled Evans, Hafod y Gân, Cwmann, 9. 71, Terry Jones, Murmur Teifi, Cwmann, 10. 118, Ieuan Jenkins, Pennant, Rhydcymerau.

Clwb 170 – Awst

1.Christopher Morgan, 38 Bro Einon, Llanybydder, 88, 2. Gwennie Douch, Heol y Fedw, Cwmann, 70, 3. Dinnie Hardy, Tryweryn, Cwmann, 9, 4. Myra Jones, 14 Bryn yr Eglwys, Llambled, 32, 5. Mrs. Warmington, Falkland, Bryn Road, Llambled, 85, 6. John Jones, Caeralaw, Heol y Fedw, Cwmann, 115, 7. Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 57, 8. Pat Jones, Glanhathren, Cwmann, 106, 9. Helen Davies, Tanyresgair, Cwmann, 38, 10. Rhian Evans, Llisycoed, Cwmann, 49.

Clwb 225 – Awst

1. 99, John Davies, Y Ddol, Cellan, 2. 84, Helen Davies, Tanyresgair, Cwmann, 3. 48, Amanda Evans, Annwylfan, Llanllwni, 4. 38, Carol Doughty, Caris, Cwmann, 5. 116, Mair James, c/o Phyllis Smith, Llambled, 6. 192, Mrs. E Jones, 3 Heol Hathren, Cwmann, 7. 4, Julian Evans, Dan-y-Wenallt, Llambled, 8. 111, Dafydd Jonas, Bara Gwalia, Llanybydder, 9. 219, Mrs. Rotherly, Golwg-y-Dyffryn, Cwmann, 10. 105, Edwin Harries, 9 Nantyglyn, Cwmann.

Cystadleuaeth Parau Iau

Rhai o'r plant fu'n chwarae yn y gystadleuaeth flynyddol yng nghlwb Llambled. Roedd cynrychiolwyr o Aberaeron, Tregaron a Llanbed yno. Yr enillwyr oedd Gavin Jones a William Davey o Aberaeron ag yn ail, Aron Dafydd a Dewi Uridge, Llambled.

Llongyfarchiadau

Longyfarchiadau i Emma Morris, wyres Mr a Mrs. Morris, 16 Heol Hathren, ar ennill Tystysgrif Proffesiynol mewn Addysg. Cafodd ei gwobrwyo yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi.

Eglwys Sant Iago

Ar ddydd Sul, 28ain Mehefin, aeth aelodau Eglwys Sant Iago ar eu pererindod blynyddol. Ymunodd pawb yn aelodau a ffrindiau ar y bws ym maes parcio yr eglwys ar ddiwrnod heulog braf. Eleni, William Williams Pantycelyn a Howel Harris oedd yn cael ein sylw. Cawsom siwrne hwylus i'n galwad cyntaf sef cartref William Williams Pantycelyn ym mhlwyf Llanfair ar y Bryn, Llanynddyfri, lle roedd Cecil a Cynthia Williams yn ein disgwyl i'n croesawu i'r tŷ lle cawsom ein harwain o amgylch a chael tipyn o hanes. Hefyd cawsom gyfle i weld, a chyffwrdd yr hen gloc sy'n dal i dician fel yr oedd canrifoedd ynghynt a'r tebot mae'n debyg i William Williams yfed allan ohono. Roedd awyrgylch hanesyddol iawn o amgylch y cartref yn enwedig pan fuom yn canu un o emynau William Williams – roedd yn eiliad eithaf emosiynol i ni gyd. Diolchodd y ficer i'r teulu am ein derbyn mor groesawgar a rhoi yr holl hanes i ni, yna yn ôl i'r bws a'r rhan nesaf o'r daith sef Coleg Trefeca – cartref Howell Harris. Ymunodd pawb mewn cinio blasus iawn cyn mynd o amgylch i weld yr amgueddfa a chael hanes Howell Harris gan ein ficer. Yna ymunodd pawb mewn gwasanaeth o ddarlenniadau a gweddïau ynghyd â chanu dau o emynau. Cyn troi am adref rhaid oedd ymweld â'r Capel bach lle roedd cyfle i gael tawelwch gweddigar. Diolchodd ein ficer i'r swyddogion am eu croeso a'r cinio blasus. Ymlaen yna i eglwys Talgarth ac i'r fynwent lle y cafodd William Williams droedigaeth wrth glywed Howell Harris yn pregethu wrth fedd ei rieni. Yna i mewn i'r eglwys brydferth hynafol i weld a darllen lle'r oedd Howell Harris wedi cael ei gladdu. Rhan olaf y daith oedd ymweld ag eglwys Llanfair-ar-y-Bryn a chael ein tywys o amgylch yr eglwys a oedd yn ddiddorol ac hanesyddol iawn. Gwelsom ddesg o eiddo William Williams yn y festri a'i garreg fedd yn y fynwent lle cawsom gyfle i

gyd- ganu un o'u emynau mwyaf adnabyddus cyn troi am adref ar ôl diwrnod hanesyddol iawn. Roedd y daith wedi gwneud pawb i feddwl mor braf fyddai cael diwygiad eto yng Nghymru a phawb ar dân am glywed yr efengyl. Diolchodd y ficer i Graham a Ceinwen Evans am drefnu'r pererindod eleni eto a phopeth wedi ei baratoi yn drylwyr fel arfer. Mae'r ddau yn benigamp erbyn hyn wrth drefnu – edrychwn ymlaen yn eiddgar at y pererindod nesaf. Rhaid peidio anghofio y gyrrwr bws yn gwneud yr amhosib ar y lonydd cul – diolch am ei ofal ar y daith.

Ar ddydd Mercher, 24ain Mehefin aeth aelodau eglwys Sant Iago i'r gadeirlan yn Nhŷ Ddewi i wasanaeth arbennig o'r Hwylol Weddi pan yr oedd ein ficer newydd, y Parchedig Ddr Williams Strange yn cael ei sefydlu fel Archddiacon Ceredigion hefyd yr oedd ein Deon Bro, y Parchedig Canon Aled Williams yn cael ei sefydlu fel Canon Trysorydd y Gadeirlan gan Esgob Tŷ Ddewi sef y Gwir Barchedig Wyn Evans. Roedd yn ddiwrnod braf a'r siwrne yn hyfryd i lawr i'r gadeirlan a phawb yn gwerthfawrogi'r golygfeydd ar hyd y daith. Ar ôl cyrraedd cawsom wasanaeth bendithiol iawn a'r cyfle i fwynhau côr godidog y gadeirlan a gwrando ar yr organydd dawnus yn creu awyrgylch trwy'r gwasanaeth. Ar ôl y gwasanaeth cawsom wahoddiad yn ôl i'r 'canonry', lle bu pawb yn cymdeithasu'n hwylus a mwynhau'r wledd a oedd wedi cael ei pharatoi ar ein cyfer gan Mrs. Eirian Williams. Diolchwyd yn gynnes iawn i'r Deon Bro, y Parchedig Canon Aled Williams a Mrs Eirian Williams am y wledd a'r croeso i ymuno gyda'r teulu tra roedd y Canon wrth ei swydd dymhorol yn y gadeirlan yn Nhŷ Ddewi. Wrth deithio yn ôl i Gwmann, roedd pawb yn gytûn fod y diwrnod wedi bod yn fendithiol iawn – braf roedd cael bod yn bresennol ac ymuno mewn gwasanaeth arbennig ac ymfalchïo yn nyrchafiad dau o'r ficeriaid lleol. Estynnwn ein llongyfarchiadau iddynt eto.

Gwasanaeth Ieuenctid

Cynhaliwyd gwasanaeth ieuenctid y ddeoniaeth yn Eglwys Sant Iago ar nos Sul, Gorffennaf 5ed, pan ddaeth nifer dda ynghyd dan arweiniad y Parchedig Dyfrig Lloyd, ficer Llanddewi Brefi, hefyd caplan ieuenctid archddiaconiaeth Ceredigion. Cawsom gyflwyniad graenus iawn a'r themâu 'Y Gwynfydau' yn cynnwys darlleniadau, gweddïau, emynau a drama fer gan aelodau'r clwb Nos Lun sydd yn cwrdd yn neuadd Sant Iago, Cwmann: Emma Davies, Meg Edwards, Cari Lake a Nicola

Williams. Gwnaed y diolchiadau gan y Parchedig Dyfrig Lloyd yn cynnwys diolch i bawb a gyfranodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y noson. Traddodwyd y fendith gan ficer y plwyf yr Hybarch Ddr Williams Strange, Archddiacon Ceredigion.

Ffair Ram

Cynhelir Ffair Ram ar ddydd Sadwrn 12fed o Fedi ar gae'r pentref. Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y.b. Bydd yr un cystadlaethau â llynedd gan na chynhaliwyd y Ffair oherwydd y tywydd; ond gellir cael copi o'r rhaglen oddi wrth Danny Davies Brynteify.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau calonnog i Eurion Jones Williams, Cysgod y Pin, Cwmann ar ei lwyddiant yn y maes cerddorol. Mae Eurion bellach yn aelod o bedwar o ensemblau'r Tair Sir sef y Cor, y Band Chwyth, y Gerddorfa a'r Band Pres - tipyn o gamp. Ym mis Gorffennaf, yn dilyn cwrs yn Llanynddyfri, bu Eurion ar daith gyda'r gerddorfa yn Budapest, Hwngari. Llongyfarchiadau iddo hefyd ar gael ei ddewis yn un o Uwch Swyddogion Ysgol Gyfun Penweddig am eleni.

Clwb Clonc

Medi 2009

£25 rhif 452:

Mrs Hedydd Thomas, Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog, Llambled.

£20 rhif 170:

Jac Teifi Evans, Llaethlliw, Neuaddlwyd, Aberaeron.

£15 rhif 441:

Mrs Glenys Thomas, Llysteifi, Station Terrace, Llanybydder.

£10 rhif 298:

Anne Jones, 18 Tŷ Rhys, The Parade, Caerfyrddin.

£10 rhif 177:

Mrs Avanna Evans, Brynbach, Rhodfa Glynhebog, Llambled.

£10 rhif 165:

Mrs Wendy Evans, Parc-y-Rhos, Blaencwrt, Llanwnnen.

Clwb Clonc

Diolch i bawb a ymaelododd eleni eto ac i'r holl aelodau newydd am gefnogi hefyd. Oherwydd y cynnydd sylweddol yn yr aelodau cynigir £100 ychwanegol yn wobrau eleni. Os nad ydych wedi ymaelodi eto, £5 yn unig yw'r tâl, a chyhoeddir yr enillwyr ym mhob rhifyn o Clonc. Cysylltwch ag Ysgrifenyddes Clonc am ragor o wybodaeth: 01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk



Ceris Morgan  
yn trin gwallt yn eich cartref



**Tori a sychu, steilo a llwio,  
cwrlo a gosod gwallt ar gyfer  
achlysuron arbennig.**

Prisau rhesymol.  
**Ffoniwch: 07738 492613**  
Cwmann  
ond yn barod i deithio'r ardal.

**Terry Jones**



**Ffotograffydd**  
**www.terrywjones.co.uk**

1 Cwrt Deri  
Cwmann  
Llanbedr Pont Steffan  
01570 421 173  
07970825724

**Mwnici ffwnici**



Brodweithio  
a Phrintio Dillad.  
Darparu  
Dillad Gwaith  
a Hamdden.  
**Sioned Green**  
a **Mared Jones**  
Nantgwyn,  
Heol Llanfair  
Llamed  
☎ 01570 423135  
☎ 07811917799 /  
07968821035  
✉ mwniciffwnici@hotmail.com

**COMPASS**  
**OFFICE**  
**SUPPLIES**

Am eich holl  
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol  
Llamed, Heol Tregaron,  
Llamed.

☎ 01570 422955  
☎ 01570 422232



**Toriad**  
**Taclus**

Mae Toriad Taclus  
Wedi newid siop  
Mae ar Heol Caerfyrddin  
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

# Gorsgoch

## Cymdeithas Amaethyddol Cylch Gorsgoch a Chlwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog

Ar ddydd Sadwrn y 15ed o  
Awst 2009 cynhaliwyd Sioe  
Gorsgoch a C.Ff.I Llanwenog  
ar gaeau Glwydwern, Gorsgoch  
drwy garedigrwydd Elfyn a Sharon  
Morgans, Glwydwern. Er gwaethaf  
ychydig o law yn ystod y bore fe  
welwyd dipyn o heulwen yn ystod  
y dydd, ac er mawr boddhad i  
aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr  
y sioe, cafwyd llu o geisiadau ym  
mhob adran yn y babell yn ogystal  
ag adran y defaid a'r ceffylau. Yn ôl  
yr arfer bu i'r dasg o feirniadu adran  
y gwartheg biff a godro gymryd lle  
wythnos cyn y sioe, a phleser yw  
cofnodi ei fod unwaith eto wedi  
bod yn lwyddiant. Hefyd yn ystod  
y dydd yr oedd yna arddangosfa  
hen beiriannau, cyfle i'r plant gael  
peintio gwynebau a mabolgampau.  
Cafwyd cryn dipyn o hwyl yn y  
gemau rownderi gyda'r hwyr a  
chyfle i ymlacio yn y ddawns gyda  
Newshan yn canu yn y nos. Braf  
oedd cael cwmni Mr Gerwyn  
Williams, Bryn y Wawr, Gorsgoch  
ein llywydd a diolch i'w ferch am ei  
geiriau pwrpasol ar ei ran. Fe fydd  
cyfran o elw'r sioe yn cael ei rannu  
rhwng Uned Cemotherapi, Glangwili  
a chanolfan y Bont, Llanbedr-  
Pont- Steffan. Diolch i bawb am eu  
cefnogaeth.

Dyma restr o enillwyr prif  
wobrau'r babell ac ar y cae.

Marciau uchaf ym mhob adran yn  
y babell –

**Cynnyrch Gardd** – Aeron  
Davies. **Coginio** – Nanna Jones.  
**Gwinoedd** – Megan Richards.

**Cyffaieth** – Margaret Jones. **Gwaith  
Llaw** – Beryl Thomas. **Blodau** – Sara  
Humphreys Jones. **Cystadlaethau**  
**o dan 18** – Gwawr Hatcher.

**Cystadlaethau o dan 26** – Elin  
Jones. **Cystadlaethau i blant ysgol**  
**Gynradd** – Luned Jones

**Ysgol â'r marciau uchaf yn yr**  
**adran arlunio yn ennill tarian**  
**her Cyngor Cymuned Llanwenog**  
**(newydd ar gyfer 2009)** –

Ysgol Llanwenog

**Cwpan Her Blaencathal am focs**  
**o gynnyrch gardd** – Eirwen Evans  
Canlyniadau'r cae: **Defaid**

**Llanwenog** – Pencampwr – Huw

Evans, Alltgoch, Is – Bencampwr  
– Huw Evans, Alltgoch.

**Defaid Speckled** – Pencampwr  
– Elfyn Morgans, Glwydwern,  
Is – Bencampwr – R & S Jones,  
Meinigwynion Mawr. **Defaid**  
**Continental** – Pencampwr –  
Geraint Lloyd, Esgair Inglis, Is  
– Bencampwr – Huw a Bronwen  
Evans, Glantrenfach. **Unrhyw**  
**frid arall** – Pencampwr – R &  
S Jones, Meinigwynion Mawr,  
Is – Bencampwr – R & S Jones,  
Meinigwynion Mawr. **Oen i'r**  
**cigydd** – Pencampwr – Gareth  
Jones, Blaenwaun Ganol ac Is  
– Bencampwr – Gareth Jones,  
Blaenwaun Ganol. **Pencampwr**  
**yr adran ddefaid** – Huw Evans,  
Alltgoch. **Young handler** – Iaf  
Heledd Jenkins, Llysfaen Uchaf.  
**Barnu Wyn Tew C.Ff.I** – Marciau  
Uchaf – Steffan Davies, Bryndolau.  
**Ceffylau**

**Adran y Cobiau** – Pencampwr  
– Gethin Morgan, Cwmann. Is  
– Bencampwr – Eirian Thomas,  
Llysfaen Isaf. **Adran farchogaeth**  
– Pencampwr – Ashley Hill. Is  
– Bencampwr – Jo Bond, Croeslan

**Marciau uchaf yn yr adran**  
**Novelties** – Heledd Jenkins,  
Llysfaen Uchaf.

**Pencampwr yr adran geffylau**  
– Richard Morgan, Cwmann

**Gwartheg Biff**  
Pencampwr – Gareth Jones,  
Blaenwaun Ganol. Is Bencampwr  
– Guto Jones, Neuadd

**Gwartheg Godro**  
Pencampwr – Glyn Jones,  
Pantyrhendy. Is Bencampwr  
– Andrew Davies, Abertegan

**Treialon Cŵn Defaid**  
**Cenedlaethol Agored 1af**

Bert Evans, Bronnant, Lledrod – Taff

**Nofis Cenedlaethol Agored 1af**  
Meirion Jones, Maesybont – Glen

**Agored De Cymru 1af** Meirion  
Jones, Maesybont – Glen

**Nofis De Cymru** – 1af Meirion  
Jones, Maesybont – Glen

## Cydymdeimlo

Hoffwn estyn ein cydymdeimlad  
dwysaf â theulu Alun Evans,  
Glennydd a bu farw'n ddiweddar.

## Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Briallt

Williams ar basio gradd 1 piano  
gyda theilyngdod. Hefyd i Elinor  
Jones ar basio gradd 5 theori gydag  
anrhydedd. Ac i Gwawr Hatcher  
ar basio ei gradd 4 theori gydag  
anrhydedd. Da iawn ferched.  
Daliwch ati!

## Priodas

Llongyfarchiadau i Caryl Sisto ar ei  
phriodas â Christopher Watson. Pob  
lwc a phriodas hapus i chi'ch dau.

## Gwellhad

Braf yw clywed bod Dai Jenkins  
Tynrhos yn gwella ac yn cryfhau  
bob dydd. Mae wedi ymgartrefu  
bellach yng nghartref Maes-y-felin,  
Drefach, ac wedi setlo mewn yno  
yn dda iawn. Ond daw ar ei dro i  
Gorsgoch yn gyson, a chafodd sawl  
sgwrs gyda'r trigolion yn y sioe yn  
ddiweddar.

Braf yw gweld Gwyneth Morgans,  
Pensarnau hefyd wedi gwella ar ôl  
llawdriniaeth yn ddiweddar.

Mae Dannie Davies, Llain-gors  
hefyd yn cryfhau ac yn gwella ar ôl  
ei lawdriniaeth. Cadwch i wella!

## Arholiadau

Llongyfarchiadau i Aled Parry,  
Croesgwyn ar wneud yn wych yn ei  
arholiadau Lefel A yn ddiweddar.

Pob lwc i ti yn y dyfodol.



Pencampwr yr Adran Ddefaid yn Sioe  
Cwmsychpant oedd Hwrdd Blwydd Speckle  
o eiddo Elfyn a Sharon Morgans, Glwydwern,  
Gorsgoch.

## Neuadd yr Hafod

Hoffwn ddiolch yn fawr i Derek  
a Maggie, Crugman am farbeciw  
hwylus iawn, lle codwyd £200 tuag  
at gronfa Neuadd y pentref.

## Radio

Mae Enfys Hatcher bellach yn  
cyflwyno rhaglen o'r enw 'Ffwl Pelt' ar  
Radio Ceredigion bob bore dydd Sadwrn  
rhwng 9 ac 11 o'r gloch. Cofiwch  
wrando a chefnogi.

## Apêl y Gors

Mae trefniadau'r apêl yn parhau,  
ac mae aelodau'r pwyllgor yn  
gweithio'n ddiwyd i baratoi ar gyfer  
yr wythnos fawr sy'n digwydd  
rhwng y 13eg a'r 19eg o fis Medi.  
Gweler y dyddiadur am fanylion.  
Mae rhaglenni y Gymanfa yn barod,  
ac yn gwerthu'n gyflym, felly  
cofiwch brynu un, am £3 o Gefn-  
hafod. Os hoffech gyfrannu tuag  
at yr wythnos mewn unrhyw fodd,  
cysylltwch â Wendy ar 434 393, neu  
Enfys ar 434 238.



Marciau Uchaf ymhob adran yn y babell yn ennill cwpan her Malcolm  
Fuller – Margaret Jones, Caeglas, Cwrtnewydd.



# Lle aeth pawb?



Eleni bydd Clwb Ffermwyr Ifanc Cwmann yn dathlu pen-blwydd yn 50 oed. Dyma ddau lun o'r clwb adeg dathlu pen-blwydd yn 25 oed yn y cinio a gynhaliwyd yng Ngwesty Glynhebog yn Ionawr 1985. Yn y llun cyntaf gwelir y cyn aelodau a'r swyddogion ac aelodau'r clwb yn yr ail lun. Ble maen nhw nawr?



## Llanybydder

### Diolch

Dymuna Wyn, Brynlllo Fawr ddiolch am y cardiau, anrhegion ac i rhai a drefnodd y parti 'syrpreis'.

Hefyd, dymuna William Davies, Greenacres ddiolch yn gynnes iawn i'w deulu a'i ffrindiau oll am y lluo gardiau a rhoddion a dderbyniodd ar ei benblwydd arbennig yn ddiweddar. Unwaith eto, diolch yn fawr iawn i bawb.

Hefyd, dymuna Eirwyn a Gwenda Davies, Llyscerdd ddiolch o waelod calon i bawb am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Gary Davies, Cadwyn Aur a Buddug Lloyd, Adsolwen, Nebo ar ei dyweddiad yn ystod mis Awst. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.

### Penblwyddi Arbennig

Yn ystod mis Awst dathlodd Nia Jones, 2 Tynffordd a Eifion Davies, 4 Bro Rhydybont eu penblwyddi yn 40ain

oed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathlu lawr yng Nghaerdydd!

Dathlodd Huw Evans, Coedparc ei benblwydd yn 70 oed a Emyr Jenkins, Brynrhosyn yn 60 oed. Iechyd da i chi i'r dyfodol.

### Dymuniadau gorau

Ein dymuniadau gorau i Arwel Jenkins, Brynrhosyn a fydd yn teithio i Seland Newydd yn ystod mis Medi am gyfnod o 7 mis. Derbyniodd Ysgoloriaeth Gareth Raw Rees yn ddiweddar yn Sioe Frenhinol Cymru.

### Bedyddwyr

Cynhaliwyd cyfarfod Senana, Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi eleni yn Aberduar. Llywyddwyd y gwasanaeth gan y gweinidog Jill Tomos, ac fe ddarllenwyd gan Hannilia Court. Aelodau Aberduar oedd yn gyfrifol am gyhoeddi'r emynau a chyfeiliwyd wrth y piano gan Brenda Jones. Darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd Mair Jones a chafwyd adroddiad ariannol gan Sulwen Lloyd, y trysorydd. Nodwyd bod £591.34 wedi ei ddanfôn ar ein rhan i ganolfan y BMS eleni. Cafwyd



### Côr Lleisiau'r Werin

Ar ddiwrnod braf o Haf, sef dydd Mercher y Sed o Awst teithiodd y côr a ffrindiau i fyny i'r Bala i berfformio ar un o lwyfannau perfformio yr Eisteddfod. Dyma'r drydedd tro i'r côr i ddiddanu yn yr Eisteddfod a chafwyd gwahoddiad i fynd i Glynebwy, Blaenau Gwent, y flwyddyn nesaf eto. Ar ôl treulio diwrnod pleserus yn yr Eisteddfod rhaid oedd troi am adre gan stopio am bryd o fwyd blasus iawn yng Ngwesty'r Llety Parc, Llanbadarn. Edrychwn ymlaen yn eiddgar am ddiwrnod tebyg y flwyddyn nesaf. Yn ddiweddar hefyd bu'r côr yn diddanu cynulledifa yn yr awyr agored ar lan yr afon Teifi yng Ngŵyl yr Afon, Cenarth. Mae'r dyddiadur yn brysus lenwi erbyn yr Hydref hefyd.

adroddiad cryno gan Mair Davies o'r cyswllt y mae hi wedi bod yn cadw ar ein rhan gyda Shayla. Mae hi bellach nôl yn y wlad hon ac yn ystyried ei dyfodol. Diolchwyd i Mair am ei gwaith di-flino yn llythyru'n gyson. Gwraig wadd y noson oedd Mrs. Lorraine Williams o Langynnwr, Llywydd Cenedlaethol Mudiad Cenhadol y Chwiorydd. Cafwyd

ganddi hanes diddorol ei hymwelïad â Mizoram yn 2005. Roedd ei chyflwyniad er yn ddwys ar adegau, yn llawn hiwmor a chafwyd darlun cyflawn o fywyd yn y wlad. Roedd hi'n anhygoel i glywed bod dros 1,600 yn mynychu'r oedfaon yn y capeli! I gloi'r noson bu pawb yn sgwrsio dros band o dê a bisgedi wedi eu paratoi gan chwiorydd Aberduar.



# Llanbedr Pont Steffan



Dawnsywyr Ysgol Ffynnonbedr yn diddanu'r dorf ar dir y coleg adeg Ffair Fwyd Llanbedr Pont Steffan 2009.

## Ffair Fwyd

Ddydd Sadwrn 25ain Gorffennaf cynhaliwyd Ffair Fwyd flynyddol Llanbedr Pont Steffan ar dir Coleg y Brifysgol. Roedd y lawnt o flaen yr hen adeilad yn llawn stondinau yn gwerthu bwydydd a diodydd o bob math gan gynnwys cynnyrch lleol. Trefnwyd darlithoedd a darparwyd adloniant o bob math - o fand roc i ddawnsywyr cyfoes i gystadleuaeth goginio. Roedd Cogydd Clonc, Gareth Richards yno hyd yn oed yn rhan o'r trefniadau. Roedd Meirion Owen a'r Cwac Pac yno'n diddanu ac atyniadau'r ffair chwarae i gadw'r plant yn ddiddan.

Diwrnod llwyddiannus iawn, digon o ddanteithion, a lle braf i dreulio'r prynhawn. Mae'n ddigwyddiad poblogaidd nawr ers blynyddoedd sy'n llwyddo i ddenu pobl leol ac ymwelwyr. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n trefnu.

## Llwyddiant chwaer a brawd



Llongyfarchiadau i Tomos, Glenydd, Stryd Newydd am ennill cystadleuaeth wiced sengl i rai dan 9 oed yng Nghlwb Criced Bronwydd gan dderbyn tlws a chwpan her. Mae gan Tomos ddiddordeb mawr ym myd chwaraeon. Da iawn ti.

Llongyfarchiadau hefyd i'w chwaer Lowri Elen, am basio arholiad piano gradd 4 gydag anrhydedd, arholiad telyn gradd 4 gyda theilyngdod ac arholiad theori gradd 3 gyda theilyngdod. Tipyn o gamp. Da iawn ti a dal ati.

## Cymanfa Ganu

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu lwyddiannus iawn yng nghapel Noddfa ar noson hyfryd o haf wedi ei threfnu gan gangen Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r cylch. Roedd hon yn noson unigryw gan mai merched yn unig oedd wrth y llyw a hefyd merched oedd yn gyfrifol am donau neu eiriau yr emynau i gyd. Braf oedd cael cymorth y dynion gyda'r canu. Hyfryd oedd gweld cynulliad lluosog iawn yn bresennol er bod sawl trip

wedi mynd o'r ardal ar y dirwnod. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan Janet, llywydd y gangen a chymherwyd at y rhannau arweiniol gan Noleen Davies a Morfudd Slaymaker, dwy o'r swyddogion. Mwynhawyd canu gorfoleddus dan arweiniad Rhiannon Lewis sydd yn meddu ar ddawn arbennig o dynnu'r gorau allan o'r cantorion. Yr artistiaid oedd Carys Lewis ac Elin Williams a phleser pur oedd gwrando ar eitemau o safon

uchel iawn gan y ddwy ohonynt. Llywydd y noson oedd Catherine Williams o Gricieth, aelod ffyddlon a gweithgar iawn o'r gangen nôl yn yr wythdegau. Croesawyd hi a'i phriod Dafydd yn wresog gan Janet a datganodd ei gwerthfawrogiad iddynt am eu pardorwydd i deithio yr holl ffordd o'r Gogledd i fod gyda ni. Cyflwynodd Catherine anerchiad diddorol iawn yn llawn hiwmor gan sôn am y cyfnod hapus yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau fel aelod o'r gangen. Diolchodd Aerwen Griffiths, yr is-lywydd yn ddiffuant i'r llywydd am rodd anrhydeddus iawn tuag at y gronfa, i Rhiannon yr arweinydd a Margaret Jones ac Elma Phillips yr organyddion am eu gwasanaeth amhrisiadwy, i'r artistiaid am eu cyfraniad gwerthfawr ynghyd â Noleen a Morfudd, i Janet am ei threfniadau trylwyr ac i bawb am eu cefnogaeth. Talodd deyrnged hefyd i Weinidog a swyddogion Noddfa am bob cydweithrediad. Datganodd Rhiannon hithau ei gwerthfawrogiad i bawb am eu canu bendigedig er gwaethaf y gwres. O ganlyniad i lwyddiant y Gymanfa codwyd swm anrhydeddus i'w rannu rhwng Cymdeithas Motor Neurone De Orllewin Cymru, apêl Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010 ac apêl Sioe Frenhinol Ceredigion 2010.

## Diolch

Dymuna Mary, Wynne a'r teulu, Y Coach House, Heol Maestir ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, y cardiau, blodau a'r geiriau caredig a dderbyniwyd ar amser trist o golli chwaer annwyl, Ray. Diolch hefyd i bawb fu mor

garedig tra bu Mam yn yr ysbyty am amser hir. Mae Mam nawr lawer yn well ac wedi ymgartrefu yn Hafandeg. Mae consym ein ffrindiau yn gysur mawr. Diolch diffuant i chwi oll.

## Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod misoedd yr haf.

## Diolch

Dymuna John a Beti, Bryncastell ddiolch yn gynnes i Margaret a Sian am drefnu parti ardderchog ar achlysur eu Priodas Aur. Diolch o galon hefyd i bawb am yr anrhegion, y cardiau a phob dymuniad da. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

## Merched y Wawr

Yn ein pwyllgor blynyddol etholwyd y canlynol yn swyddogion am y tymor nesaf, 2009-2010  
Llywydd Aerwen Griffiths  
Is-Lywydd Mary Davies  
Ysgrifenyddion Gwynfil Griffiths  
Mair Lewis  
Is-Ysgrifennydd Mair Jones  
Trysorydd Elma Phillips  
Is-Drysorydd Rhiannon Jones  
Cofnodydd Llynos Harries  
Cofrestrydd a Threfnydd y Raffl Glyn Morris a Dilys Godfrey  
Swyddogion Adloniant  
Avril Williams a Gwyneth Morgan  
Dosbarthwr y Wawr Dolly Yang  
Mae 'na raglen ddiddorol wedi ei threfnu ar gyfer ein tymor nesaf, felly os hoffech ymuno gyda ni dewch i Festri Shiloh erbyn hanner awr wedi saith ar Fedi 14eg. Croeso cynnes i bawb.

## Priodas Dda

Ar Awst 22ain priododd Caryl Hughes, Cwmhendryd â Ben Herrick o Aberystwyth. Dymuniadau gorau i chwi i'r dyfodol.

## Cymdeithas Hanes

Yn ystod yr haf, bu'r aelodau, ynghyd â nifer o ffrindiau, ar ymweliad ag Aberglasne. Tywyswyd pawb o gwmpas gan un o wirfoddolwyr gweithgar yr Ymddiriedolaeth am awr neu fwy, a chafwyd hanes y darganfyddiadau a'r datblygiadau sydd wedi digwydd yn Aberglasne wrth i'r lle ddatlu 10 mlynedd ers ail agor yn 1999.

Wedi cael ysbaid am ginio, treuliodd pawb amser yn mynd o gwmpas y naw o erddi sy'n creu'r cyfanwaith o gwmpas y tŷ, ac yn edrych ar y ffilm fideo sy'n crynhoi hanes Aberglasne dros y canrifoedd.

Trefnwyd y daith gan Penny David, a hi sydd wedi golygu'r llyfr newydd o waith Grahame Rankin, prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth yn Aberglasne. Mae'n lyfr hyfryd sy'n dangos nid yn unig y gwaith



# Llanbedr Pont Steffan

sydd wedi ei gyflawni yno, ond hefyd y planhigion prin mae e wedi eu casglu o bedwar ban y byd, ac sy'n awr yn tyfu naill ai yn y gerddi neu yn y 'Ninfarium', sef y lle cynnes sydd o fewn cwrpawd yr adeilad. Llyfr 'bwrdd coffi' hyfryd.

Bydd y Gymdeithas yn ail gychwyn ar y 15fed o fis Medi. Cynhelir y cyfarfod cyntaf yng Nghanolfan Ymchwil Roderick Bowen, - sef adeilad newydd llyfrgell y Coleg, - am 7.30yh. Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol cyn i siaradwr y noson, Andrew Prescott, - Llyfrgellydd y coleg, - siarad am 'Gasgliad Ffotograffeg y Brifysgol'. Croeso cynnes i bawb.

## Diolch

Mae Rhian a Llŷr Williams am ddiolch i bawb sydd wedi anfon cardiau, anrhegion a dymuniadau da i'r teulu ar enedigaeth Rhys Gethin, brawd bach i Guto Emrys. Mae Rhys yn wyr bach newydd i Eryl, Gerlan, a Glenys a Robin Graig Ewig ger Pwllheli, ac yn or wyr i Annie Nantsebon. Maen nhw hefyd am ddiolch i bawb am eu dymuniadau da.

## Noddfa

Er bod nifer i ffwrdd ar eu gwyliau daeth cynulliad teilwng ynghyd i Noddfa ar Sul 23 Awst i oedfa arbennig wedi ei llunio gan Janet ar y thema 'Canu Mawl i Dduw.' Mewn darlleniadau o'r Beibl, caneuon a gweddiâu cawsom hanes profiadau'r Saint ar hyd y cenhedlaethau drwy gyfrwng cyfoeth o emynau. Mae'n anodd credu ond roedd yna adeg yng Nghymru yn hanes yr eglwys gristnogol pan nad oedd y gynulleidfa yn canu emynau. Daeth canu emynau i fri fel canlyniad i Ddiwygiad Efengylaidd y 18fed ganrif. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan John Morgan, Megan Jenkins a Sian Jones Rhandir a chyhoeddwyd yr emynau gan Tomos Rhys, Lisa Evans, Osian ac Elan Jones, Alun Williams a David Williams. Y llefarywr oedd Myfanwy Bryce, Avanna Evans a Derek Evans. Darllenwyd geiriau yr emyn buddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni gan Janet a bu Llinos yn darllen emyn o waith Beryl Davies, un o aelodau Noddfa. Mwynhawyd cân hyfryd gan y plant a datganiad swynol gan Llinos. Talodd John deyrnged uchel i Janet am drefnu Oedfa fendigedig a diolchodd i bawb am wneud eu gwaith yn ardderchog ac yn arbennig i'r plant am eu cyfraniad arbennig. Casglwyd gan Lisa ac Elan a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Llinos.



Dymuniadau gorau i Mrs Mair Morgan [canol] ar ei ymddeoliad o'r byd ffasiwn ar ôl 52 o flynyddoedd ffyddlon ac hefyd i Rosa Lloyd [chwith] ar ei hymddeoliad hithau. Iechyd da i chwi eich dwy i'r dyfodol.

Yn y llun hefyd gwelir cefn - Linda Jones a Janet Bray. Blaen - Rosa Lloyd, Mair Morgan a Janice Williams.



Llywydd y Sioe, Alun Williams Crown Stores yn cyflwyno cwpan y Bencampwriaeth i Mrs A C Spawton, Gilfachwen, Cellan am ei gwartheg Highland



Sioe Llanbedr - Teulu'r Jones, Coedmore Hall, Cellan yn dangos eu gwartheg Limousin a gipiodd Bencampwriaeth y grŵp o dri.



Pencampwr yn Adran y Gwartheg yn Sioe Llanbedr oedd Limousin o eiddo Berwyn Hughes, Cwmhendryd, Llanbedr

## Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,  
Llanbedr, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiadurol eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

## Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llanbedr  
Ffon: 423300 Ffacs: 423223  
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth  
cyfreithiol  
*Apwyntiadau hwyr neu  
yn eich cartref*

**W.D.  
Lewis  
a'i Fab**

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,  
Llanbedr Pont Steffan

*Am holl fwydydd a nwyddau  
amaethyddol, cysylltwch â ni.*

## WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.  
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob  
gwasanaeth cyfreithiol.  
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,  
Llanbedr**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,  
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

## CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar  
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion  
chi - boed yn fawr neu'n fach*

Mair Hatcher  
01570 481230 / 07967 559683



# Llanwnnen

## Ysgol Llanwnnen

Ar ddydd Iau, Gorffennaf 9fed aeth yr adran Iau lawr i Amgueddfa Sain Ffagan i fod yn rhan o ddiwrnod Hwyl yr Haf yr Urdd. Cafwyd diwrnod cyfan o weithgareddau o gwmpas yr amgueddfa.

Cynhaliodd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ei Ffair Haf nos Wener, Gorffennaf 10fed. Llywyddion y noson oedd Roy a Ceinwen Roach, 5 Bro Llan. Diolch yn arbennig i chi am eich rhodd hael. Cafwyd ambell gawod o law yn ystod y noson ond ni amharwyd dim ar y twrnament Pêl-droed. Cafwyd gêm gynhyrfus yn y gêm olaf yn erbyn Llanwenog a Chwrtnewydd. Cwrtnewydd enillodd ar ddiwedd y dydd. Talodd Meinir Ebbsworth, Cadeirydd y Gymdeithas y diolchiadau.

Yna, ar ddydd Llun, Gorffennaf 13eg cafwyd trip ar y cyd ag Ysgol Cribyn i Dan-yr-Ogof ac yna i Playzone. Fe wnaeth pawb fwynhau eu hunain mas draw.

Ar ddiwedd tymor yr haf fe wnaeth Mrs Ann Thomas, Glanhawraig ymddeol. Diolch yn fawr i chi am eich gwaith ar hyd y blynyddoedd diwethaf. Trefnir tysteb

iddi a fydd yn cau ddydd Llun, Medi'r 7fed. Croeso cynnes i Mrs Caryl Rosser sydd wedi dechrau yn y swydd.

Dydd Mercher, Gorffennaf 31ain trefnodd Miss Nia Davies dau lond bws i fynd lawr i Gaerdydd. Cawsom amser yn y ddinas i siopa neu fe aeth rai i weld ffilm. Yna cael swper lawr yn y Bae cyn mynd i Ganolfan y Mileniwm i weld y sioe gerdd 'Sound of Music'. Roedd Connie Fisher yn canu yn y sioe.

Bu'r plant yn cystadlu yn y gwahanol sioeau ac Eisteddfod Llambd eleni eto.

Ar ddechrau mis Medi byddwn yn croesawu disgyblion o ardal Cribyn atom i'r ysgol yn Llanwnnen. Croeso cynnes i chi gyd.

## 80 oed

Dymuniadau gorau i Mrs Avarina Lewis, Gwelfro a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Fedi 13eg. Iechyd da i chi am flynddoedd eto.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i BAWB a fu'n cystadlu yn y Sioe Frenhinol a'r sioeau lleol yn ystod yr haf. Da iawn chi.

# Colofn yr Urdd

## Nwyddau

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd gwirfoddolwyr yn mynd o amgylch ysgolion Ceredigion i gyd [tra bod stoc ar gael] i werthu nwyddau 2010. Dyma'ch cyfle olaf felly i brynu'r nwyddau yma. Maent wedi bod ar werth gennym ers Mawrth 2008.

Os nad ydych wedi gweld y nwyddau ewch ar safle we - [www.urdd.org](http://www.urdd.org) mor fuan â phosib. Mae yna 7 set o'r jygiau ar ôl. Fe wnaeth Lowri Davies sydd wedi cynllunio rhain ennill Medal Aur yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau eleni. Mae croeso i chi gysylltu gyda Nia Davies ar 01570 480015.

## Canu'u 737

Ar Fedi 15fed mi fydd Rhiannon Lewis a dau ddisgybl o'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Tregaron yn treulio'r diwrnod yng Nghapel Bwlchgwynt. Yn gwneud beth? Ein bwriad yw i ganu pob un o emynau, salmau a chaniadau 'Caneuon Ffydd' - 737 ohonynt - ar yr organ. Pam? Wel er mwyn codi arian at Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 wrth gwrs! Mi fyddwn ni'n tri yn cael ein noddi (gobeithio), ac mi fydd cyfle hefyd i ddyfalu faint o amser fydd hyn yn cymeryd i ni - £1 y tro a gwobr o £25 i'r cynnig agosaf. Bydd coreso i'r cyhoedd ymuno â ni yn ystod y dydd i ganu ambell emyn ac mae'n bur debyg y byddwn yn codi £1 ar bob un wrth iddynt ddod i'r capel - nid £1 y dôn!

Plis! Er mwyn Cymru cyd-ddyn a Christ!

## Cydnabyddir cefnogaeth



[www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

GORSAT BRAWF  
MOT



**GAREJ BRONDEIFI**

Heol Llanfair  
Llambd  
SA48 8JX

Ffôn: 01570 422305  
Ffôn Symudol: 07974 422305

PEDDANT GOLCHU  
CEIR POETH  
AR AGOR  
7 DIWRNOD YR  
WYTHNOS

Dewch i ein safle newydd am wasanaeth prydlon a chyfeillgar

\* Gwasanaethu ac Atgyweirio\* Prisiau Cystadleuol am Deïars \*  
\* Egsôsts \* Batris \* Brêcs \* Ceir Newydd ac Ail-law ar werth \*

# Llangybi a Betws



Caryl Griffiths, Glandulas Isaf, Llangybi gyda'r gwobrau a enillwyd gan y teulu gyda'u tarw Du Cymreig yn Sioe Frenhinol Cymru yn ddiweddar.

## Clonc yng nghyfarfod y Bwrdd

Ar ddydd Llun yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn y Bala trefnodd Bwrdd yr Iaith gyfarfod i gynrychiolwyr papurau bro Cymru yn y Babell Lên.



Meirion Prys Jones Bwrdd yr Iaith oedd cadeirydd y cyfarfod a rhoddodd Alun Fred Jones y Gweinidog Treftadaeth anerkhiad. Gwahoddwyd Dylan Lewis ar ran Papur Bro Clonc wedyn i drafod y wefan [www.clonc.co.uk](http://www.clonc.co.uk).

Cafwyd cwestiynau i'r Gweinidog am gyllid, gwirfoddolwyr a chydweithio, a chafwyd ymateb da i gyflwyniad Dylan am wahanol agweddau o drefnu gwefan. Synnwyd ambell gynrychiolydd o'r ffordd yr aeth Clonc, fel un neu ddau bapur bro arall, ati i sefydlu a chynnal gwefan.

Gan ddymuno pob llwyddiant i Clonc, dywedodd Meirion Prys Jones "Roedd yn ddiddorol iawn clywed am lwyddiannau Clonc a brwdfrydded y gwirfoddolwyr a'r darllenwyr."



Tipyn o anrhydedd yn wir i Clonc oedd cael bod yn rhan o gyfarfod fel hyn ar lefel Cymru. Diolch i bawb am barhau i gefnogi gan sicrhau papur bro sy'n arwain y ffordd i bapurau bro eraill.



# Cellan

## Dymuniadau gorau

Pob hwyl i Carys y Fishers Arms ar ei thaith dramor am chwe mis. Gobeithio y byddi di yn mwynhau y profiad arbennig yma.

## Cydymdeimlo

Bu farw Mr Glyn Williams, Tan y Gaer, estynnwn gydymdeimlad dwys â'r teulu oll.

## Helfa Drysor

Cynhaliwyd Helfa Drysor blynyddol y pentref ar y 13eg o Awst gan orffen yn y Fishers. Cafwyd tipyn o hwyl.

## Priodas

Llongyfarchiadau i Daniel Davies, Y Ddol wedi ei briodas yn ddiweddar yn Ffrainc. Pob hwyl i'r pâr ifanc yn eu cartref yng Nghasnewydd. Gwnaeth hefyd ymdrech arbennig i ddysgu'r iaith- go lew ti Daniel!

## Codi arian

Cynhaliwyd noson o ffilmiau i godi arian i'r Eglwys. Daeth tyrfa dda ynghyd a digon o hufen iâ a phopcorn!

## Arlwyo

Bu cwmni bwyd Dolen 7 yn bwydo Tywysog Cymru ar ddechrau'r haf - tipyn o anrhydedd.

## Dymuniadau da

Pob hwyl i Owain mab Barbara ac Euros ar ei briodas ac hefyd i Catrin, Llwynifan sy'n priodi ar ddechrau mis Medi.

## Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw ar nos Fawrth Hydref y 13eg am saith o'r gloch yr hwyr. Gwasanaethir gan Y Parchedig John Gwilym Jones, Caerfyrddin. Croeso cynnes i bawb.

## Neuadd y Mileniwm

Noson ffilmiau yn Neuadd y Mileniwm, Cellan. Agorir y drysau am 7.15 a'r ffilm i ddechrau am 7.45. Dewch yn llw i fwynhau noson hwylus o flaen y sgrîn fawr.

4ydd o Fedi The Young Victoria  
25ain o Fedi The Boat that rocked  
16eg o Hydref Is anybody there?  
6ed o Dachwedd State of Play  
27ain o Dachwedd Angels and Demons

Public Enemies a Harry Potter and the half blood prince i'w cadarnhau.

Rhifyn mis Hydref  
Yn y Siopau  
**Hydref 1af**  
Erthyglau i law erbyn  
**Medi 17eg**  
Newyddion i law erbyn  
**Medi 21ain**

# Ffarmers

## Carnifal a Mabolgampau Bro Fana

Cafwyd cefnogaeth dda ar gyfer y Carnifal a'r Mabolgampau blynyddol ar ddydd Sadwrn, Awst yr 8fed ar Barc Bro Fana. Llywyddion 2009 oedd Llywela Jones o Dalyllychau (gynt o Tŷ Cerrig) a Simon Hall, a chafwyd diwrnod hyfryd yn eu cwmni. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y prynhawn, gan gloi gweithgareddau'r dydd gyda thwrnament pêl-droed yn dilyn y mabolgampau. Cychwynnodd yr Helfa Drysor o sgwâr y pentre ar Nos Sul y 9fed o Awst, a chafodd pawb hwyl yn datrys y cliwiau. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y dydd.

## Croeso 'nôl

Yn dilyn cyfnod hir yn Ysbyty Llandochau yn derbyn triniaeth law-feddygol, hyfryd croesawu John Rhys Evans, Glasdir adref. Dymunwn iddo wellhad buan.

## Cydymdeimlad

Blin gennym gofnodi marwolaeth Len Smith, Llwynfedwen yn ddiweddar, ac estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu yn eu colled. Ymgartrefodd ef a'i ddiweddar briod yn Llwynfedwen nifer fawr o flynyddoedd yn ôl, ac 'roedd yn wyneb cyfarwydd o gwmpas yr ardal. Rhoddwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent Eglwys Llancyrws.

## Newid Aelwyd

Yn dilyn blynyddoedd lawer yn byw yng Nghae Caradog, mae Mr a Mrs Chapman bellach wedi symud i fyw yn Upton on Severn. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd.

## Priodas Aur

Llongyfarchiadau, a phob dymuniad da i Mr a Mrs Charlie Pollack, Maesybedw, ar ddatlhu eu Priodas Aur.

## Priodas Dda

Ar y 27ain o Fehefin, a hithau yn ddiwrnod hyfryd o haf, priodwyd Rhys Davies, Troed y bryn a Siân Thomas, Fronhaul, Carno yng Nghapel Creigfryn, Carno. Gwasanaethwyd gan Y Parchedig Edwin Hughes, a'r Gwas Priodas oedd Rhodri Gomer Davies, brawd y priodfab. Y morwynion oedd Rebekah Owen a Clare Jones, ffrindiau i Siân, gydag Aled Siôn Thomas – nai i Siân – yn was bach. Yr ystlyswyr oedd Siôn Thomas, Dafydd Thomas a Geraint Thomas – brodyr Siân, ynghyd â John Mercer a Gareth Edwards – ffrindiau Rhys. Cafwyd darlleniadau yn ystod y gwasanaeth gan Lisa Vaughan ac Eleri Davies. Yr Organyddes oedd Katherine Jones, a'r Delynors oedd Catrin Evans. Treuliodd Rhys a Siân



## Ffair Grefftau

Cynhaliwyd Ffair Grefftau lwyddiannus dros ben gan aelodau o'r Clwb Grefftau lleol yn y Neuadd ar ddydd Sadwrn, y 25ain o Orffennaf. Daeth nifer o ymwelwyr i werthfawrogi a phrynu peth o gynnyrch yr aelodau. Yn ogystal â hyn, codwyd £82.50 i Hosbis Tŷ Hafan. Yn y llun, gwelir rhai o aelodau'r Clwb yn dal cwilt sydd i'w arddangos yn y Neuadd, ac yn y cefndir, mae yna enghreifftiau o'u cynnyrch.

eu mis mêl yng Nghenia a Zanzibar, ac maent bellach wedi ymgartrefu yng Ngharno. Llongyfarchiadau iddynt, a dymuniadau gorau am ddyfodol hapus gyda'i gilydd.

## Llongyfarchiadau

Estynnwn ein cyfarchion i nifer o blant yr ardal ar eu llwyddiant yn ddiweddar. I Glesni Evans sydd newydd gwblhau Cwrs Gradd fel hyfforddwraig cerdd yn y Coleg yn Chichester. Mae Glesni bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau i Elin Lloyd, Penbont ar ennill gradd mewn Therapi Amgen o UWIC yng Nghaerdydd. Yn dilyn cyfnod yn gweithio i Academi yng Nghaerdydd, mae Gwennan Evans yn cychwyn ar gwrs MA mewn Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol yn y Brifysgol yng Nghaerdydd yn yr hydref, a dymunwn iddi lwyddiant yn ei hastudiaethau. Mae Gwennan hefyd yn lais cyfarwydd ar Radio Cymru erbyn hyn. Pob hwyl i'r tair ohonynt.

## Gweithgareddau'r Neuadd

Yn dilyn llwyddiant y noson Caws a Gwin yn y Neuadd ym mis Mai 2008, mae'r Pwyllgor wedi trefnu noson debyg eto ar gyfer Medi 18fed 2009. Cofiwch felly roi nodyn yn y dyddiadur. Bydd cyfle i fwynhau cwmni Y Prifardd Tudur Dylan yn y Neuadd ar y 26ain o Hydref, a chawn gyngerdd gydag Aled Edwards, Cilycwm a Chôr Tŷ Tawe o dan arweiniad Helen Gibbon ar yr 21ain o Dachwedd. Fel arfer, bydd Cyngerdd a Noson o Garolau yn y Neuadd ar y nos Sul cyn y Nadolig, ac eleni cawn gwmni y baritôn Kees Huysmas. Mae yna nifer o weithgareddau arall yn cael eu trefnu ar gyfer y gaef – cadwch lygad ar

eich papur bro am fanylion llawn.

## Penblwydd Hapus

Estynnwn ein cyfarchion i Dewi Davies, Murmur y Coed, Cwmann (Llwyncelyn mawr gynt) ar ddatlhu penblwydd go arbennig yn bedwar ugain oed. Er iddo symud i Gwmann ers blynyddoedd bellach, mae'n dal yn wyneb cyfarwydd yn Ffarmers ar ei ymweliadau dyddiol i gadw llygad ar y ceffylau.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Carys Thomas, Penywaun ar ei llwyddiant yn ei harholiadau Lefel A.

Mae Carys wedi ennill ysgoloriaeth i'r Brifysgol yn Aberystwyth lle y bydd yn astudio Daearyddiaeth. Pob hwyl i ti.

## Pris Clonc

Penderfynwyd yng nghyfarfod blynyddol Clonc i godi pris y papur i **60c**. Dyma'r codiad cyntaf ers blynyddoedd. Gobeithio eich bod yn teimlo eich bod dal yn cael gwerth eich arian.

Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd nifer o ddatblygiadau a ddylai ychwanegu at y profiad o ddarllen Clonc. Mae diwyg y papur wedi gwella gan iddo gael ei ddylunio â chyfrifiadur, argreffir y cloriau mewn lliw ar bapur sgileiniog a chynigir gwefan newydd ochr yn ochr â'r papur traddodiadol. Y cyfan hyn am yr un pris o 50c tan nawr.

Os allwch feddwl am unrhyw welliant arall, bydd gwirfoddolwyr presennol Clonc yn falch o glywed oddi wrthyhch. Cysylltwch ag unrhyw un o'r Bwrdd Busnes.



# Drefach a Llanwenog

## Llongyfarchiadau

Daeth llwyddiant i Peter a Helen Howells, Tycam wrth iddynt dderbyn y gil-wobr yn adran y gwartheg Biff gyda'u tarw Charolais yn y Sioe Frenhinol yn Llanwelld yn ystod yr Haf.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys ag Eryl, Mary a'r teulu oll, Esgereion ar golli tad, tad-yng-nghyfraith a thadcu annwyl sef David Price a oedd yn wreiddiol o Lwyncelyn ger Aberaeron.

Cydymdeimlir yn ddwys hefyd â Mrs Gillian Lewis a'r teulu, Eirianfa ar golli ei chwaer sef Mary Thomas o Lamed.

## 18 oed

Ar ddiwrnod olaf mis Gorffennaf dathlodd Siôn Griffiths, Blaenpant ei benblwydd yn 18 oed. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

## Priodas Dda

Ar Awst 22ain priododd Eilir Evans, Tandderi â Carol Davies, Cross-lane yn Eglwys St Ioan, Pontsian. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd ym Maes-y-dderwen.

## Ysgol Llanwenog

Llywydd ein Diwrnod Hwyl eleni oedd cyn ddisgybl o'r ysgol, sef Mr. Gwyn Lewis, Siop Garpedi Llambled. Braf oedd cael croesawu ef a'i wraig 'nôl atom am y diwrnod. Cawsom araith ddiddorol iawn ganddo am y cyfnod y bu yn yr ysgol a charwn ddiolch yn fawr iddo am ei rodd haelionus. Cyflwynwyd blodau iddo ef a'i briod gan Anna Evans a Sara Thomas. Hyfryd oedd gweld cymaint o gefnogaeth yr ardal yn ystod y prynhawn. Fel ysgol carwn ddiolch yn fawr iawn i Mr. a Mrs. Peter Howells, Tŷ Cam am ganiatáu i ni barcio ein ceir yn y cae ger iard yr ysgol. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i holl rieni, staff a ffrindiau'r ysgol am helpu i sicrhau llwyddiant ysgubol y diwrnod.

Cafwyd hwyl fawr ar y cystadlu yn ein mabolgampau eleni gyda'r plant i gyd yn gwneud eu gorau o flaen tyrfa dda o gefnogwyr gan gynnwys teuluoedd a ffrindiau. Unwaith eto roedd yn hyfryd cael cwmni Sefydliad y Merched Llanwenog a fu'n brysur yn rhoi rhubanau a pharatoi tē blasus iawn i'r plant. Diolch i Mr. Roy Bracy ein tirmon am baratoi'r cae. Eleni capteniaid Cledlyn, sef y tîm buddugol oedd Rebecca McEnery, Emma McEnery a Daniel Spratling a chapteniaid Gwenog oedd Jac Jones a Anna Evans.

Mwynhaodd disgyblion Dosbarth y Babanod sesiynau difyr ym Mhwl Nofio Llambled yn ystod y tymor. Treuliasant hefyd orig fechan yn pori

trwy lyfrau yn Llyfrgell y dre.

Treuliodd disgyblion Blynnydoedd 2, 3 a 4 ddeuddydd yn llawn antur wrth fynd i aros y nos ym Mhentre Bach. Cysgodd y merched yn nhŷ Pili Pala tra bu'r bechgyn yn treulio'r nos yn nhŷ Nicw Nacw. Bu'n brofiad bythgofiadwy i'r plant a'r staff Uchafbwynt y gwyliau oedd cael mynd fel y gwynt gyda Bili Bom Bom yn ei gar, Sabrina! Diolch i Mr. a Mrs. Adrian Saville am eu croeso twymgalon. Byrdwn mwyafrif o'r plant oedd 'Pryd cawn ni fynd eto?'

Llongyfarchiadau i blant yr Adran Iau am ennill tystysgrifau 'Beicio'n ddiogel' o dan hyfforddiant Mr. Terry Jones a Mr. Malcolm Charlton.

Hyfryd oedd cael croesawu Miss Mattie Evans, athrawes Wyddoniaeth Ysgol Gyfun Llambled i'r Adran Iau. Defnyddiodd wrthrychau go iawn i gwblhau'r arbrogion.

Aeth disgyblion Blwyddyn 6 draw i Ysgol Llanwnnen gyda'u cyfoedion o'r dair ysgol gyfagos i gwrdd â nyrs yr ysgol, sef Mrs. Morag Evans er mwyn trafod materion yn ymwneud â thyfu i fyny.

Aeth yr ysgol gyfan ar ymweliad â Fferm Arfordirol Ynys Aberteifi. Profiad gwfreiddiol oedd cael cyfle i fwydo'r anifeiliaid megis y wallabie, y geifrod a'r ceffylau ac arsylwi ar y morloi yn y dŵr. Cyn ffarwelio penderfynwyd mynd am dro ar hyd traeth Poppit wrth fwyta ein hufen-iâ.

Ar ddiwedd y tymor cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddisgyblion Blwyddyn 6, sef Jac Jones, Emma a Rebecca McEnery, Anna Evans a Daniel Spratling sydd yn ein gadael am yr Ysgol Uwchradd ym mis Medi. Carwn fel ysgol ddiolch iddynt am eu hymrwymiad i'r ysgol yn ystod eu cyfnod gyda ni yma yn Llanwenog. Dymunwn bob llwyddiant, hapusrwydd a iechyd iddynt yn y dyfodol.

Ar brynghawn heulog o Orffennaf, cafwyd parti o ddiolch wrth ffarwelio â Mrs. Evans a fu'n athrawes y Babanod yn yr ysgol hon ers pum mlynedd ar hugain. Diolch i'r Gogyddes a'r staff am baratoi'r holl fwyd blasus.

Ar ddechrau tymor yr hydref croesawn dau ddisgybl newydd sef Jamie Jones a Dewi Lloyd i Ddosbarth y Babanod a Rhys a Wyn Davies i'r Adran Iau.

Hefyd carwn longyfarch Miss Sioned Whitfield am gael ei phenodi fel athrawes yn Ysgol Llanwenog. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu atom gan obeithio y cawn flynyddoedd o gydweithio hapus.

Yn y cyfamser hoffwn hefyd estyn croeso i Mrs. Gwyneth Davies a Mrs. Sue Evans a fydd yn cymeryd at yr awennau nes y bydd Miss Whitfield yn cael ei rhyddhau o'i swydd bresennol yn Ysgol Gynradd Llandysul.

## Ysgol Gynradd W.G. Llanwenog

Ar ddiwedd tymor yr haf gwnaeth Mrs. Margaret Evans ymddeol wedi 25 o flynyddoedd fel athrawes yn yr ysgol hon. Croeso cynnes i gyn athrawon, disgyblion, rhieni, pobl yr ardal a ffrindiau oll i barti yn yr Ysgol ar brynghawn dydd Sadwrn 12fed o Fedi am 2 o'r gloch ymlaen. Bydd yr achlysur yn ddathliad o deyrnged i Mrs Evans. Ceir lluniaeth ysgafn. Os am wybodaeth bellach cysyllter â Miss H.Davies yn yr ysgol 01570 480382.

## Y Gymdeithas Hŷn

Mae'r aelodau wedi bod ar ddau drip arall yn ystod yr haf. Ym mis Gorffennaf, taith i Sir Benfro; aros yn Abercych am goffi cyn mynd ymlaen i 'Scolton Manor', - amgueddfa amaeth a diwydiant Sir Benfro, a'r tŷ ar agor hefyd. Lle gwerth ymweld ag e, a'r pris mynediad yn rhad iawn. Wedi cael rhyw ddwy awr yno, mynd am Porthgain, a gweld olion yr hen waith brics. Rhyfedd yw meddwl heddi' fod porthladd mor fychan wedi bod yn lle rhyfedd o brysur ar un adeg. Ymlaen wedyn i felin wlân Tregwynt; gweld brethynnau a blancedi lliwgar yn cael eu creu ar y peiriannau gwŷdd, ac yna cael ychydig o amser i wario arian yn y siop. Y daith yn dod i ben wrth aros yng Ngwesty Trewern yn Nanhyfer am swper blasus.

Taith i'r gogledd ym mis Awst: bws i Machynlleth, ac yna ar y trên i Borthmadog. Y tywydd ddim ar ei orau, ond y golygfeydd yn wych o'r trên ar y ffordd i fyny ac yn ôl eto i Fachynlleth. Wedi cael tair awr dda ym Mhorthmadog troi am adref ond nid cyn cael Swper yn y Marine yn Aberystwyth.

Bydd taith ola'r tymor yn mynd i Abertawe ar y 9fed o fis Medi. Y bws i gychwyn o Lamed am 8.30 yb. Enwau i Yvonne 480590.

## C.Ff.I Llanwenog

Braf yw dweud fod y clwb wedi dod yn drydydd yn chwaraeon y sir ym mis Mehefin. Fe ddaeth y clwb yn ail yn yr athletau, yn drydydd yn y pêl-droed, yn drydydd yn y pêl-rwyd dan 18oed ac yn fuddugol yn y pêl-rwyd dan 26ain. Fe aeth y tîm pêl-rwyd ymlaen i gynrychioli'r sir yn chwaraeon Cymru yn Aberhonddu.

Er nad yw'r clwb yn cyfarfod yn ystod yr haf mae'r aelodau wedi bod yn brysur iawn. Bu sawl aelod o'r clwb yn y Sioe Frenhinol yn cynrychioli Ceredigion mewn gwahanol weithgareddau. Ar fore dydd Llun roedd Manon Richards, Lyn Jenkins, Elin Jones a Sioned Davies yn cystadlu yng nghystadleuaeth 'Hyrwyddo Clwb'. Cafwyd cryn dipyn o hwyl ac enillwyd yr ail wobwr. Roedd nifer o fechgyn y clwb eto'n brysur ar brynghawn dydd Mercher wrth iddynt gystadlu yng nghystadleuaeth

'Tynnu'r Gelyn'. Yn wir, roedd y bechgyn yn tynnu'n galed iawn wrth iddynt ddod yn bedwerydd. Roedd Llŷr Davies a Lee John Lloyd yn brysur gyda'r rygbi yn ystod yr wythnos wrth iddynt gael eu dewis i gynrychioli'r sir. Cawsant gryn lwyddiant er mai colli fu eu hanes yn erbyn Sir Gâr yn y rownd gynderfynol. D

Yn ystod yr haf cynhaliwyd cyfarfod blynnyddol y clwb, lle etholwyd Heilin Thomas yn gadeirydd y clwb am y flwyddyn i ddod, Gwennan Davies yn Is-gadeirydd a Thrysorydd, Llŷr Davies yn Ysgrifennydd; Gethin Hatcher yn Is-drysorydd; Cerys Jones, yn Ysgrifennydd Rhaglen; Gwawr Hatcher yn Ysgrifennydd Cofnodion; Sioned Davies yn Ohebydd y Wasg; Enfys Hatcher yn Swyddog Gwefan a Steffan Davies, Carwyn Davies, Bleddyn Jones a Sioned Evans yn gyfrifol am y llyfr lloffion. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc i'r swyddogion newydd.

Bu aelodau'r clwb yn brysur mewn sioeau lleol yn ystod mis Awst. Roedd slot gennym yn sioe Llambled lle roeddem yn gwneud gweithgareddau i geisio denu aelodau newydd. Fe fu nifer ohonom yn brysur yn cystadlu ac yn stiwardio yn sioe Gorsgoch, lle cafwyd sioe lwyddiannus eleni eto.

Hoffai'r clwb longyfarch Eilir Evans a Carol Davies ac hefyd Aled Davies a Melanie Davies ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Dymunwn bob hapusrwydd i chi.

Bydd y clwb yn ail ddechrau ar y 7fed o Fedi pan fyddwn yn cael Noson yng ngofal ein arweinyddion yn ysgol Cwrtnewydd am 7:30y.h. Byddwn yn cwrdd hefyd ar Fedi'r 14eg am noson o chwaraeon dan do yng Nghefnhafod am 7:30 y.h Os oes rhywun rhwng 10 a 26 mlwydd oed am ymuno â ni, bydd yna groeso mawr i chi! Am fanylion pellach, cofiwch edrych ar ein gwefan newydd sef [www.cffillanwenog.org.uk](http://www.cffillanwenog.org.uk).

## Clwb 100 Neuadd y Pentre

Ebrill:- 21. R.Edwards, Glanrhyd 94. Eirlys Jones, Gellideg. Mai:- 96. Ann Thomas, Milford House 31. Jeff Thomas, Glannau'r Afon. Mehefin:- 37.Rosemary, Danielle a Richard Bracey. 76. Marna Evans, Bwthyn y Dolau Gorffennaf:- 5. Hyw Davies, Ornant 23. Julie Hughes. Awst:- 57. Brian Thomas, Rhiwson Ganol. 69. Mandy Evans, Gwynfryn, Gorsgoch.

## Diolch

Dymuna Gillian Lewis, Eirianfa, a'r teulu ddiolch i'r perthnasau, cymdogion a ffrindiau am eu cydymdeimlad wrth golli chwaer a modryb annwyl. Diolch yn fawr i'r Parchedig Bill Fillery am ei wasanaeth ac hefyd i Gwilym Price a Cerdin am eu gwasanaeth hwythau.



# Cadwyn Cyfrinachau



Enw: **Rhian Bellamy**  
Oed: 27  
Pentref: Llanybydder  
Gwaith: Swyddog Iechyd  
Anifeiliaid  
Partner: James  
Teulu: Alan, Ann a Catrin

**Unrhyw hoff atgof plentyndod.**  
Mynd 'da Dad, Mam a Catrin i  
Gastell Carreg Cennen yn  
Llandeilo.

**Hoff raglen deledu pan oeddet  
yn blentyn.**  
All Creatures Great and Small.

**Yr eiliad o'r embaras mwyaf.**  
Canu cerdd dant allan o diwn yn  
llwyr yn eisteddfod gylch yr Urdd  
yn neuadd Llanwnnen pan yn yr  
ysgol gynradd. Ma'r atgof yn dal  
yn neud i fi deimlo fel llefen.

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn  
blentyn.**  
Bo fi ddim yn gallu canu cerdd  
dant.

**Pan oeddet yn blentyn, beth  
oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?**  
Merch trin gwallt neu fecanig.

**Y peth mwyaf rhamantus a  
wnaeth rhywun i ti erioed?**  
Gofyn i fi briodi e.

**Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?**  
Ar lan yr afon Teifi ar noson braf  
o haf gyda'r cŵn Meg, Hanna a  
Judy.

**Y peth gorau am yr ardal hon?**  
Bod yn rhan o gymuned.

Pa mor wyrdd wyt ti?  
Nid da lle gellir gwell!

**Pa iaith wyt ti'n defnyddio  
gyntaf?**  
Cymraeg.

**Pa fath o berson sy'n mynd o  
dan dy groen?**  
Pobol sy'n eich gweld chi heddi



ond na fyddant yn eich adnabod  
fory.

**Sut fyddet ti'n gwario £10,000  
mewn awr?**  
Prynu hen gar BMW "vintage".

**Beth sy'n codi ofn arnat?**  
Sŵn anghyfarwydd yn y  
tywyllwch.

**Pryd chwydaist ti ddiwethaf?**  
Parti Iâr ym Mryste.

**Beth oedd y celwydd diwethaf i  
ti ddweud?**  
Gweud wrth Mam bo fi heb fod  
yn sâl yn y parti Iâr ym Mryste!

**Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n  
bersonol?**  
Cael canlyniadau TGAU a  
sylweddoli mod i ddim mor dwp a  
oedd pawb wedi meddwl!

**Wyt ti'n difaru rhywbeth?**  
Codi'n rhy hwyr yn y bore ac  
felly'n gyrru'n rhy gyflym a chael

pwyntiau ar fy nhrwydded!

**Beth yw dy gyfrinach i gadw'n  
bert / i gadw'n gryf?**  
Bydde'n well da fi bido gweud  
– gan nad yw e'n gweithio'n dda  
iawn!

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**  
Cymwynasgar, cydwybodol a  
llon.

**Pa gar wyt ti'n gyrru?**  
Peugeot 207 Sport.

**Beth yw dy hoff air?**  
"Haleliwia!!"

**Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod  
yn sownd ar ynys anghysbell?**  
Jamie Oliver – Ma'n galle neud  
pryd o fwyd mas o ddim!

**Beth yw'r cludfwyd o'th  
ddewis?**  
Chinese.

**Beth wyt ti'n ei ddarllen?**

Farmers Guardian.

**Beth yw dy hoff arogl?**  
Rhosod yn yr ardd.

**Sut wyt ti'n ymlacio?**  
Yfed gwin gwyn.

**Pwy yw'r person enwocaf ar dy  
ffôn symudol?**  
Brenhines C.Ff.I Ceredigion  
– Manon Richards.

**Pa un peth fyddet ti'n newid am  
dy hun?**  
Meddwl bach mwy am beth fi'n  
mynd i ddweud, cyn bod e'n dod  
mas o ngheg!

**Beth fyddet ti'n achub petai'r  
tŷ'n llosgi'n ulw?**  
Dad a Mam (ac unrhyw un arall  
bydde na ar y pryd!).

**Oes bywyd ar ôl marwolaeth?**  
Gobeithio.

**Beth fyddet yn ei wneud pe na  
baet yn gwneud y gwaith hwn?**  
Rhedeg siop ddillad.

**Ar beth y gwnest orwario arno  
fwyaf?**  
Ffrog briodas!

**Pa beth wyt ti'n ei drysori  
fwyaf?**  
Teulu, ffrindiau ac anifeiliaid!

**Y gwyliau gorau?**  
Canada gyda C.Ff.I Cymru.

**Arferion gwael?**  
Yfed gormod o win gwyn!

**Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n  
'neud cyn mynd i'r gwely?**  
Tynnu plygs trydan allan o'r wal.

**Ble fyddi di mewn deng  
mlynedd?**  
Dal ma gobeithio.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:  
**Lyn Jenkins, Llanybydder**

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid  
gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn  
cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET  
**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**  
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

				3		8
2		7				9
			1	5	7	4
			6			8
		9	7	4	6	
8				1		
3		5		1	7	
	7				8	9
	1	8				

## Atebion Swdocw mis Gorffennaf:

Llongyfarchiadau i **Mr R Buckley, Bryntegwel, Llambod** a diolch i bawb arall  
am gystadlu: Eurwyn Davies,  
Heol-y-Gaer, Llanybydder,  
Iona Wormington, Llandaf,  
Caerdydd, R Jones, Penbryn,  
Llambod, Eirlys Thomas, Awelfa,  
Llanybydder, Avril Williams, Y  
Fedw, Cwmann, Glenys Davies,  
Gelli Aur, Llanybydder, Janet  
Williams, Lynden, Cwmffrwd,  
Mrs J Morgan, Bryn-yr-Eglwys,  
Llambod a Bethan Williams, Heol-y-Gaer, Llanybydder.

5	8	1	2	3	9	4	7	6
3	9	2	4	6	7	1	8	5
4	6	7	5	8	1	2	9	3
7	1	5	3	9	2	6	4	8
2	3	8	6	1	4	9	5	7
9	4	6	7	5	8	3	1	2
8	7	9	1	2	3	5	6	4
1	5	3	8	4	6	7	2	9
6	2	4	9	7	5	8	3	1



# Llanfair Clydogau

## Ymddiheuriad

Siomedig oedd gweld dim hanes o dan Llanfair Clydogau yng Nghlanc mis Gorffennaf. Rydym yn deall mai ar y cyfrifiadur oedd y bai, am i'r newyddion fethu cyrraedd yr ysgrifennydd a mynd ar goll. Roedd tri digwyddiad pwysig yn y newyddion sef yr ŵyl gwrw a'r barbiciw, y ffêl a chyngerdd Côr Cwmann. Cynhaliwyd yr ŵyl gwrw ar y 12fed a'r 13eg o Fehefin ar ddiwrnod braf pan ddaeth llawer o bobl ynghyd. Diolch i Lesley a Glenis am eu holl waith o baratoi ac i bawb a gyfrannodd. Diolch hefyd i'r rhai a fu yn coginio cig a pharatoi y salads erbyn y barbiciw. Roedd y bwyd yn fendigedig a gwnaethpwyd bron pump cant tuag at gronfa y neuadd. Rydym ar hyn o bryd yn parhau i adnewyddu y neuadd trwy roi ffenestri newydd, llawr newydd a goleuadau newydd. Mae'r arian a godwyd yn ddefnyddiol iawn.

Cynhaliwyd y ffêl yn y neuadd gan fod y cae yn rhy wlyb. Er hyn cafwyd diwrnod llwyddiannus dros ben. Diolch i Linda a Lawrence am eu gwaith o drefnu ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y dydd.

Cafwyd noswaith ardderchog pan ddaeth Côr Cwmann a'r Cylch atom i gynnal cyngerdd yn Eglwys Santes Fair. Fel rhan o'r digwyddiad gwerthwyd mefus a hufen yn y neuadd cyn ac ar ôl y gyngerdd. Pwrpas y noson oedd codi arian tuag at gronfa Eisteddfod yr Urdd 2010. Diolch i bawb a fu yn coginio a pharatoi bwyd i'r cyhoedd ac i'r côr.

## Ymweliad o Dramor

Pleser mawr oedd cael cwrdd â hen ffrindiau sef Maureen, Heather a Winston, sydd yn byw nawr ers blynyddoedd maith yng Nghanaada. Buont yn efaciwis ym mhentre Llanfair yn cartrefi gyda'i mamgu yn Hendrebant adeg yr ail ryfel byd, a mynychu ysgol y pentre. Daethant yn ôl i Gymru i gladdu llwch eu mam, Marged, un o blant hen deulu Cefnfoellallt, a fu farw allan yn Vancouver yn 99 oed.

## Parti Gwaith

Daeth grŵp niferus dewr at ei gilydd ar y 7fed o Orffennaf yng

nghanol y glaw a'r gwynt i dacluso a thorri porfa ym mynwent yr eglwys. Cafwyd diwrnod gweithgar a diolch i bawb am droi i fyny ac i Gwyneth Jones, Noyadd, am y lluniaeth ac i Iris Quan ac Eleanor Evans am eu cymorth.

## Gwellhad

Pleser mawr yw gweld Ian Evans Esgairman a Barbara Tucker, allan eto o gwmpas y pentre ac yn dechrau mwynhau bywyd unwaith eto.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Eleanor Evans, Nantymedd, a gafodd lwyddiant mawr yn y sioeau eleni am goginio. Yn Llanellwedd mi enillodd bum gwobr a hamper. Yn Llanbed hi enillodd y cwpan am y mwyaf o bwyntiau yn y dosbarth coginio ac yn Nhregaron enillodd y cwpan hefyd.

Llongyfarchiadau i Rebecca Miller, Daniel a Ffion Davies, ei wyrion, am eu llwyddiant yn ennill gwobrau yn nosbarth y plant yn sioe Llanbed.

Pleser yw gweld fod y plant a thalentau mamgu.

## Grŵp Cerdded

Ar 16eg o Awst trefnwyd prynhawn o gerdded gan Eleri Pentre. Y man cwrdd oedd Tregaron. O dan arweiniad Dafydd Wyn Morgan cafwyd prynhawn diddorol o gerdded yn dilyn hanes Twm Sion Cati ac yna nôl i'r Talbot am luniaeth.

## Beth sydd nesaf

Ar y 6ed o Fedi mae taith wedi ei threfnu o Eglwys Santes Fair i Eglwys Dewi Sant gyda gwasanaeth a the ar ôl cyrraedd. Bydd y daith yn cychwyn o Lanfair am 2 y.p. Croeso i bawb.

Ar y 4ydd o Hydref bydd taith y pentre yn mynd i Abertawe a'r Gŵyr gyda bwyd yn Rhosmaen, Llandeilo ar y ffordd adref. Manylion yn Siop y Pentre.

## Help! Help!

Mae angen newyddion arnom bob mis. Cysylltwch â ni ar 493 407. Byddwn yn ddiolchgar iawn.

## ‘Canrif’ – drama newydd!

Mae Guto Gwilym o Gwm-ann wedi ei ddewis yn aelod o Gwmni Theatr Ieuencid Cymru eleni – yr unig un o Geredigion. Yn dilyn cwrs preswyl o fis yn Aberystwyth bydd y cwmni gyda chast o ryw ddeugain o bobl ifanc o bob rhan o Gymru'n perfformio eu cyflwyniad ‘Canrif’ yn Theatr y Werin ar nos Wener, 4 Medi am 7.30 ac ar ddydd Sadwrn am 2.30 a 7.30. Byddant hefyd yn Theatr Clwyd a Theatr y Sherman. Mae'n argoeli i fod yn berfformiad ardderchog ac anogir chi i fanteisio ar y cyfle i fynd i'w weld.

## Llanwenog Ymdeoliad Hapus

Ar ddiwedd mis Awst fe wnaeth Gillian Jones, Meysydd ymdeol o'i swydd gydag Adran Addysg Cyngor Sir Ceredigion. Dymuniadau gorau a iechyd da i chi yn eich ymdeoliad.

## Alltyblaca Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â Mr David Hughes Davies a'i ferch Sian, Morawel, Llanddarog yn dilyn marwolaeth ei bried Menna sef merch y diweddar Henadur Gwariant a Mrs H Williams, Woodlands, Alltyblaca.

# Llanllwni

## Llongyfrachiadau

Llongyfarchiadau i Elin Jones, Tŷ Newydd, Maesycrugiau ar ennill Tlws yr Ifanc yng Ngŵyl Fawr Aberteifi.

Hefyd, dymuniadau i iddi ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ystod yr haf.

## Diolch

Dymuna Mrs Wendy Smith ddiolch o galon i bawb gyfrannodd at ei thysteb wrth ymadael fel athrawes yn Ysgol Llanllwni. Gwerthfawroga yn fawr y dymuniadau gorau, rhoddion a chardiau a dderbyniodd. Dymuna'n dda i'r ysgol a'r gymuned yn Llanllwni yn y dyfodol.

## Carnifal a Mabolgampau


Oherwydd y tywydd gwael bu'n rhaid gohirio yr uchod yn ddiweddar ac fe fyddant yn awr yn cael eu cynnal ar dydd Sul, Medi 13eg am 1.30y.p Croeso i bawb.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Steffan Harris, Yr Hen Felin ar ennill llu o wobrau yn adran y dofednod mewn amryw o sioeau gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru a Hwlfordd.

## Noson Goffi a BBQ 14eg Awst 2009

Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu a chefnogi'r Noson Goffi a BBQ a'r amryw o stondinau ar y 14eg o Awst. Cafwyd noson hwylus a llwyddwyd i godi dros £1,400 ar gyfer Eglwys St Luc Llanllwni sydd yn dangos y gefnogaeth sydd i'r Eglwys yn y gymuned leol.



Anwen Jones, Blaenblodau, New Inn yn dal yr hwrdd a enillodd iddi Bencampwriaeth Adran y Defaid Speckle a'r gil wobwr ym Mhencampwriaeth defaid y Sioe yn Llambled.

## Llanybydder

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn arholiadau'r Coleg Cerdd Brenhinol a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar.

Ysgrifenedig Gradd 3 – Meleri Davies, Tyngrug-Isaf, Llanwenog; Lowri Elen Jones, Glennydd, Llambled [Teilyngdod]

Piano Gradd 1 – Rhys Davies, Tyngrug-Isaf, Llanwenog [anrhydedd]; Yvonne Evans, Tandderi, Llanybydder [anrhydedd]

Piano Gradd 2 – Betsan Jones, High View, Llanllwni [Teilyngdod]

Piano Gradd 4 – Deloni Davies, Glas-y-Dorlan, Llanwnnen; Sioned Davies, Y Cartws, Rhydown [Teilyngdod]; Lowri Elen Jones, Glennydd, Llambled [Anrhydedd]

Piano Gradd 6 – Gareth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder.

## Chwilio am ginio Dydd Sul?

Dwch i

BELLE VUE,  
LLANLLWNI

Rhwng 12 a 2 o'r gloch

Bwyd Cartref - lle cartrefol

Dewis o gigoedd a llysiau -  
a darpariaeth i llysiau

Bwyd o safon uchel - Croeso i Bawb!

Ffoniwch fyny neu Sug - 01570 450495



# Taith o 60 milltir er budd Ymchwil Cancer



Ar ôl misoedd o drefnu, daeth yn fore Sul, Awst yr 2il a'r bedair ohonom yn awyddus i ddechrau'r daith 60 milltir o Ynyslas yr holl ffordd i Aberteifi er mwyn codi arian tuag at Ymchwil Cancer Cymru.

Am 9 o'r gloch chwifio hwyl fawr i'n teuluoedd a dechrau'r siwrne ar hyd y tywod, gyda'r haul yn gwenu'n braf arnom. Cyrhaeddwyd Borth erbyn tua 10.30 ac ymalen â ni tuag at Clarach. Y llwybr yn mynd â ni drwy barc carafan 'Clarach Bay' a phawb yn edrych braidd yn hurt arnom gan fod esgidau trwm a bagiau mawr ar ein cefnau. Cwrdd â rhai o'n cefnogwyr a dyma Carwyn, Meinir ac Alpha yn dod â'u bwced noddi a rhai o'r 'holidaymakers' yn sylweddoli ein bod yn cerdded i

godi arian ac yn cyfrannu tuag at yr achos.

Cerdded ymlaen heb aros ryw lawer gan ein bod wedi dweud y byddem yn Aberystwyth tua 12.30. Un o uchafbwyntiau y diwrnod cyntaf oedd mynd rownd rhyw gornel a gweld tref Aberystwyth yn y pellter o'n blaenau. Fe wnaeth hyn rhoi ryw hwb bach ychwanegol i'r bedair ohonom.

Cyrraedd Aberystwyth a choeliwch chi byth picnic mawr yn disgwyl ni ar y Prom, bendigedig!

Roedd cerdded o Aberystwyth i draeth Tan-y-bwlch yn daith fflat, hyfryd. Ond roedd gwaith i ddod. Dringo 500 troedfedd mewn pellter bach iawn, ond braf oedd edrych yn ôl ar yr olygfa hyfryd a gweld Aberystwyth yn y pellter. Roedd y rhan yma o'r daith dros 9 milltir a gwnaeth y bedair ohonom deimlo ei bod yn hir a blinedig wrth gerdded llethrau, ar hyd caeau, a thrwy llwybr llawn rhedyn, roedd pob un ohonom wedi taweli ryw dipyn. Cyrhaeddwyd Llanrhystud tua 6 o'r gloch. Tair milltir i gyrraedd Llannon, felly bant â ni gyda rhai o'n cefnogwyr yn cerdded gyda ni. Cyrraedd Llannon tua chwarter i saith, cefnogwyr brwd yn ein disgwyl - y diwrnod cyntaf wedi ei gwblhau a 23.2 milltir wedi ei wneud. Rhai â choesau tost ac ambell flister!

Braf oedd cael cawod hyfryd twym yn ein gwely a brecwast a swper blasus yn Nglwb Golff Llanrhystud. Gwely weddol gynnar yn barod am yr ail ddiwrnod.

Dechrau'r ail fore am hanner awr wedi wyth o Lannon yn gwybod bod diwrnod caled iawn o'n blaenau. Y bedair ohonom yn edrych dipyn mwy bywiog ar ôl noson o gwsg. Pwddel a dŵr lan dros eich esgidau cyn cyrraedd Aberarth. Cyrraedd Aberaeron bach yn hwyrach na'r disgwyl ond roedd y cefnogwyr yma eto a'r ail ddiwrnod llawn mor frwydfrydig â'r diwrnod cynt. Byrbryd oedd yn ein disgwyl ar yr harbwr yn Aberaeron.

Cafwyd cwmni Mr Morlais Davies i gerdded o Aberaeron ymlaen a bu'n sôn wrthym am hanesion yr ardal. Uchafbwynt diwrnod dau oedd cyrraedd Cei bach a cherdded ar y traeth i Gei Newydd, negeseuon hyfryd fel pob lwc staff Cwrt wedi cael eu hysgrifennu ar y tywod. Cinio blasus yng Nghei Newydd a dros ugain o gefnogwyr yn ein hysbrydoli.



Bant â ni am tua pedair milltir i Gwmtedu, glaw mân yn disgyn a ninnau'n gorfod gwisgo ein cotiau glaw am y tro cyntaf. Cyrraedd Cwmtedu ar ôl sawl set o stepiau a llethrau caled iawn. Pob un yn dechrau blino, ond roedd dal pum milltir a hanner cyn cyrraedd diwedd yr ail ddiwrnod. Cerdded heibio Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog a gwybod ein bod nawr heb fod ymhell o'r diwedd. Braf oedd edrych lawr ar Langrannog yn gwybod fod cawod dwym yn ein disgwyl. Pob un erbyn hyn wedi blion'n lân a'u traed yn dost, ond 20.6 milltir wedi ei gwblhau.

Bore'r diwrnod olaf a hithau'n bwrw glaw yn drwm iawn, pawb yn edrych braidd yn flinedig y coesau a'r traed yn eithaf tost. Bant â ni ar ein ffordd i Benbryn ac yna ymlaen i Dresai. Y tywydd braidd yn ddiflas. Lawr i draeth Aberporth, cael croeso cynnes gyda'n cefnogwyr. Dringo allan o Aberporth pob cyhyr yn brifo gyda phum milltir a hanner cyn cyrraedd Mwnt, ond y tywydd wedi gwella cryn dipyn erbyn hyn. Bu'r rhan yma'n ofnadwy o hir, ond braf oedd dod dros y copa a gweld Eglwys fach y Mwnt yn y pellter. Cinio y trydydd diwrnod yn ein disgwyl yn y maes parcio. Erbyn hyn roedd pawb yn sychedig ac eisiau bwyd gan ein bod tua tri chwarter awr yn hwyrch na'r disgwyl yn cyrraedd.

Codi o'r gadair ar ôl cinio yn gwybod taw dim ond chwech milltir a hanner i fynd, roedd pawb yn edrych tipyn yn well erbyn hyn ac ambell jôc yn cael ei rannu unwaith eto!

O Mwnt i Gwbert, Radio Ceredigion yn ein ffonio eisiau siarad â ni'n fyw ar y daith, roedd hyn yn braf gan fod pawb o amgylch Ceredigion yn gwybod ein bod bron ar ddiwedd ein taith. Cerdded lawr i Gwbert a gweld y môr o'n blaenau dyma beth oedd golygfa brydferth. Rhan olaf y daith, 3.2 milltir i Aberteifi y wên yn dechrau ymddangos yn ôl ar ein wynebau unwaith eto. Ond pethau ddim mor rhwydd â hynna. Dyma ni'n dilyn y llwybr a cherdded mewn i gae oedd yn llawn 'corn in the cob' methu gweld dros ei ben a gorfod dibynnu yn llwyr ar y map i ddod â ni allan yn y man cywir. Rhaid dweud bod ein sgiliau Daearyddiaeth ni'n eitha da!

Braf oedd gweld tref Aberteifi yn dod i'r golwg ac uchafbwynt yr holl daith i'r bedair ohonom oedd gweld pont Aberteifi a'r cefnogwyr i gyd yn ein disgwyl yn chwifio'u baneri. 60.3 milltir wedi ei gwblhau!

Heb help y cefnogwyr brwd oedd o dan flwydd oed i wythdeg chwech oed byddai'r daith wedi bod tipyn yn anoddach ac i deimlo llawer yn hirach.

Nid oedd amser i aros gan fod barbeciw wedi'i drefnu yng Nghefnhafod, Gorsgoch, felly adref am gawod. Braf oedd cyrraedd Cefnhafod a tua nawdeg o bobl wedi dod i'n llongyfarch. Y bedair ohonom yn gwisgo 'flipflops' gan fod y traed braidd yn dost ac ambell ewin du.

Camp fawr wedi ei gwblhau i'r bedair ohonom a phawb yn ymfalchïo. Does unman yn brydferthach nag arfordir Ceredigion.



Ymgynghorwyr Yswiriant

**Eryl Jones**

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur

Yswiriant tŷ/cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

**FISHERS**

**ARMS**



Bwyd cartref ardderchog nos lau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

**Cellan, Llambled**

01570 422895

**T. Emyr Jones**  
**Adeiladwr**



**Araul, Cwmann**

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

**CANOLFAN ADDURNO**

**AA**

**A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau lleni, gwasanaeth torri allwedd i pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont

Llanbedr Pont Steffan

01570 423156

**Cludfwyd Indiaidd**

**NEHAR**

newydd agor yn Llambled



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled

☎ 01570 422893 / 422175



# Ar dramp gyda aelodau'r C.Ff.I.

## Karibu Kenya – Croeso i Kenya



Ar ôl proses o ymgeisio a chael cyfweiliad yn Stratford Upon Avon ac yna misoedd o baratoi a chyffro, fe fentrodd pedair ohonom o fudiad Ffermwyr Ifanc Cymru, ynghyd â saith aelod arall o Loegr i Kenya. Wrth deithio draw i Heathrow ar yr 8fed o Awst, roedd ein meddyliau ar ras wrth drafod yr hyn oedd yn ein hwynebu. Rhai yn poeni am y bwyd, eraill am effaith y tlodi ac

am y teuluoedd y bydden yn treulio ein wythnos gyda nhw.

Wedi glanio yn Nairobi a theithio drwy'r ddinas roedd y cyfoeth a'r tlodi mor amlwg â'i gilydd, y tai crand ar y naill law a'r tai shanti ar y llall. Wrth bellhau o'r ddinas roedd y tlodi yn dod yn amlycach a'r cyfoeth yn diflannu, y rhewlydd tarmac yn troi'n rhewlydd llwch, pedair olwyn yn troi'n ddwy droed a'r siopau yn troi'n stondinau pren. Pen y daith oedd pentref Mulaani ger tref Machakos lle bydden yn ymgartrefi. Perthyn i lwyth y 'Kamba', un o 42 llwyth y wlad oedd y brodorion a 'Kikamba' oedd eu mamiaith. Wrth i'r 11 ohonom gael ein rhannu rhwng y chwech teulu, eto roedd y tlodi yn amlwg, toeau sinc, dim dŵr tap na thrydan, lloriau concrit a thwll yn y ddaear fel toiled. Er diffyg y pethau materol hyn, roedd croeso twymgalon yn ein disgwyl. Bu'r lluniaeth am yr wythnos yn amrywio o reis, india-corn, ffa, bresych, cêl, uwd miled a chig gafr. Doedd sim sôn am sglodion na siocled ar y fwydlen fan hyn!

Roedd ein diwrnodau wedi cael eu rhannu fel ein bod yn profi gwahanol agweddau o fywydau'r trigolion. Am fod amaethyddiaeth a thyfu cynydau yn rhan annatod o'u bywydau cafwyd nifer o weithgareddau ynghlwm â hyn. Y broblem fwyaf oedd yn eu hwynebu oedd eu bod ynghanol cyfnod o sychder mawr, y gwaethaf ers 50 mlynedd. Roedd cynnal eu hunain yn frwydr barhaol - roedd yn rhaid cerdded milltiroedd i gael dŵr a roedd y diffyg tyfiant yn golygu nad oedd digon o fwyd i'r bobl na'r anifeiliaid. Y peth amlycaf oedd y ffordd roeddent yn gwneud teresau, hynny yw creu lefelau yn y tir serth er mwyn sicrhau nad oedd y pridd yn chwythu i ffwrdd yn y sychder na'r mwynau yn llifo i ffwrdd adeg tywydd gwlyb. Roeddent hefyd yn creu ffosydd er mwyn cronni'r dŵr ac yna plannu coed a phlanhigion yn rhain. Buom yn plannu coed afocado, papaia a banana.

Bywoliaeth nifer o'r trigolion oedd gwneud crefftiau a fyddai'n cael eu gwerthu mewn marchnadoedd cyfagos. Roedd gwehyddu basgedi a phlethu rhaffau yn ddwy grefft boblogaidd ond fel y profom, anodd iawn! Roeddent hefyd yn gwneud crochenwaith a cherfio deunydd o bren. Roedd y crefftiau yma wedi cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth a nifer o'r crefftwyr heb dderbyn addysg ffurfiol, ac felly yn dibynnu ar y sgiliau hyn i gynnal eu hunain a'u teuluoedd.

Yn ystod ein hymwelaid cawsom gyfle i ymweld ag ysgol gynradd ac uwchradd. Ystyrir addysg yn beth pwysig a chaiff ei werthfawrogi am eu bod nhw yn ei weld fel allwedd i well ddyfodol. Di-raen oedd yr adeiladau a bach iawn o adnoddau oedd ganddynt. Serch hyn roedd yr athrawon yn ymroddgar iawn i'w gwaith a roedd eu brwdfrydedd yn amlwg. Disgwylid i'r plant gerdded i'r ysgol erbyn 6.45 bob bore i sgubo'r lloriau cyn paratoi am wersi'r dydd a ni fyddant yn troi am adre tan 4.30, diwrnod hir iawn! Dosbarthiadau hyd at 57 o blant oedd yn wynebu'r athrawon, nifer mawr a fyddai'n cael ei ystyried yn annerbyniol yn y wlad hon mae'n siwr. Erbyn cyrraedd yr ysgol uwchradd yn 14 oed roedd amaethyddiaeth yn cael ei gynnal fel pwnc ac yn boblogaidd gan y disgyblion. Roeddent yn cael eu dysgu sut i dyfu cynydau a chadw stoc, roedd hyd yn oed buwch ffrisian odro yn cael ei chadw ar dir yr ysgol.

Roedd eu cred Gristnogol yn amlwg a byddent yn dibynnu arno i'w cynnal trwy'r cyfnodau anodd. Dyma bobl hapus a diffuant sydd yn esiampl i ni gyd. Felly, wrth i ni gael cawod, defnyddio'r peiriant golchi dillad a llestri, troi at y tap dŵr a flyshio'r toiled rydym yn eu gwerthfawrogi ac yn cofio am ein ffrindiau newydd!

Cyn troi am adref, cawsom gyfle i ymweld â Pharc Cenedlaethol Nairobi a gweld rhai anifeiliaid megis llewod, jiraffod a sebraod.

Dyma drip yn llawn profiadau arbennig iawn ac erys yr atgofion byth. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n holl noddwyr sef Undeb Amaethwyr Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Sir Gâr, Cyngorau Cymuned Llandysul, Llanwnnen, Llanwenog, Felinfach a Chiliau Aeron, Trigolion ardal Llandyfaelog, Rotari Llanbed ac Aberaeron, CFfi Ceredigion a Sioe Aberteifi. Diolch hefyd i fudiad y Ffermwyr Ifanc yn genedlaethol am drefnu'r daith hon. 'Nimuvea' - Diolch!

Gan: Manon Richards, Mererid Davies, Alwen Jones a Carys Thomas.



## Fy Nhaith i'r Ffindir

Rhwng Mehefin y 9fed a'r 20fed, fe fues i yn y Ffindir ar daith gyfnawd gyda Mudiad y Ffermwyr Ifanc. Fe fues i ac un aelod arall, sef Emyr Beynon yn ddigon ffodus o gael ein dewis i gynrychioli Cymru ar y daith arbennig yma. Dyma'r hanes....

Yn gyntaf, rhaid oedd llenwi ffurflen gais, yn nodi'r holl weithgareddau, y cystadlaethau a'r swyddi rwyf wedi cymryd rhan ynddo gyda'r mudiad, a hefyd tu allan y mudiad. Hefyd nodi pam oeddwn eisiau mynd ar daith ac i ba wlad oeddwn eisiau ymweld â hi. Ar y 15fed o Dachwedd, es i Swyddfa'r C.Ff.I yn Llandudno er mwyn cael cyfweiliad, ac ar ddiwedd y diwrnod yma, cyhoeddwyd mai fi ac Emyr Beynon o Sir Gâr fyddai'n cynrychioli Cymru ar daith y Ffindir. Ro'n i'n 'ecsaited bost'!

Rhaid oedd bwcio'r awyren, cysylltu gyda'r teulu y byddwn yn sefyll gydag, a hefyd gwneud trefniadau gyda mudiad 4H y Ffindir (mudiad sy'n debyg i fudiad y C.Ff.I). Rhaid oedd cael Euros ac yswiriant, llenwi mwy o ffurflenni, dysgu peth o'r iaith, sef Ffinneg, (y geiriau syml, fel diolch- 'kiitos' a helo- 'hei') heb anghofio am bacio! Yna, roeddwn yn barod i fynd!

Ar fore dydd Mawrth, y 9fed o Fehefin, dyma fi a fy nghês yn dechrau o adref am y Ffindir. I Gaerfyrddin yn gyntaf, i gwrdd ag Emyr, ac yna i Gaerdydd erbyn 4 o'r gloch y bore i ddal yr awyren. (Diolch i Gethin, fy mrawd am ddreifo ni.) Rhaid oedd galw yn Amsterdam i drosglwyddo awyrennau hanner ffordd, ac yna fe laniodd

yr awyren yn Helsinki am 5 o'r gloch pnawn Mawrth. Roeddwn yn rhan o grŵp o bump tra yn Helsinki; fi, Emyr a tri crwt o'r Swistir. (strabs a hanner!) Dros y deuddydd, gwelsom safleoedd hanesyddol y ddinas, fel yr Eglwys Gadeiriol, un o dyrau talaf y ddinas, y stadiwm, cofgolofn y cyfansoddwr Sibelius a'r siop anferth, Stockman.

Aethom hefyd i swyddfa a man cyfarfod mudiad y 4H, lle dysgais am drefn a system y mudiad, sy'n debyg iawn i fudiad y C.Ff.I gyda ni. Fe gawsom gyfle hefyd i gymdeithasu a dod i nabod ein gilydd, trwy fwynhau awyrgylch hamddenol dinas Helsinki. Yn wir, trist oedd gadael ein tri ffrind newydd ar ôl y deuddydd. Yn nhref Kajaani treuliais weddill fy amser, yn byw gyda theulu caredig drosben. Rhaid oedd teithio 7 awr mewn tren er mwyn cyrraedd yma - taith flinedig iawn! Tra yn Kajaani, cefais amser bythgofiadwy, a phroffais bob math o bethau hollol unigryw. Mae'r Ffindir yn wlad ffantastig i ymweld â hi; mae ganddynt draddodiadau, arferion, tirwedd, iaith a diwylliant hollol unigryw, a chefais y cyfle i brofi hyn tra yn Kajaani.

Bwytais tua phum gwaith y dydd; roeddent yn hoff iawn o'u bwyd!..... siwtio fi i'r dim!! Profais ddigwyddiadau 4H; roeddent yn ddigon tebyg i weithgareddau'r C.Ff.I. Methais gysgu, oherwydd dydy'r Ffindir ddim yn cael tywyllwch yn yr haf, gan nad ydy'r haul yn mynd o'r golwg.

Profais iaith hollol newydd - anodd oedd deall fy nheulu ar brydiau, er bod y fam yn gallu siarad peth Saesneg. Mae'n rhyfedd sut gallwch ddod i



nabod pobl a thyfu i fod yn ffrindiau heb allu deall gair. Dydy rhwystr ieithyddol ddim yn rhwystr cyfathrebu bob tro. Des i ben â gwneud ffrindiau oes er gwaetha'r diffyg dealltwriaeth ieithyddol. Roedd defnyddio'r sawna yn draddodiad cryf ganddynt, ac roeddent yn ei ddefnyddio o leiaf tair gwaith yr wythnos. Er mwyn dathlu diwrnod hiraf y flwyddyn, roedd teuluoedd yn casglu at ei gilydd i gael

sawna, ac un traddodiad oedd ynghlwm gyda'r digwyddiad yma oedd creu 'vasta'. Vasta yw casgliad o ddail bedw wedi eu clymu gyda'i gilydd er mwyn chwipio'r corff yn y sawna!! Nid dysgu am y wlad a'u phobl yn unig y gwnes pan es i i'r Ffindir am bythefnos, ond dysgais dipyn am fi fy hun hefyd! Doeddwn erioed wedi treithio dramor ar ben fy hun cyn hyn, felly profiad hollol newydd, a dysgais i fod yn gyfrifol a gofalus yn y meysydd awyr (Helsinki, Amsterdam a Chaerdydd), yn y tren (7 awr o Helsinki i Kajaani) ac hefyd ar fysiau a thramiau. Gorfod i fi ddygymod â iaith wahanol, ac mae bod mewn gwlad ddieithr a nabod neb yn brofiad brawychus, ac felly rhaid oedd dod dros yr arswyd yma, a siarad, a chwrdd â phobl newydd. Yn wir, gwnes ffrindiau oes! Dysgais hefyd i ddygymod â blinder. Ar ôl yr holl deithio, y prinder cwsg (oherydd bod y nosweithiau yn olau), a'r amserlen llawn, roeddwn wedi blino'n shwps - ond rhaid oedd cadw fynd, a gwneud y mwyaf o'r profiad.

Felly siwrnau emosiynol a phersonol, a dysgais i fod yn annibynnol mewn gwlad estron, dieithr, sydd erbyn hyn wedi tyfu i fod yn wlad arbennig iawn i fi. Profiad rhyfeddol a hollol fythgofiadwy oedd y daith yma i fi, a gallaf fyth a diolch digon i fudiad y C.Ff.I a 4H am roi y fath gyfle i fi.

Gan: Enfy's Hatcher